

Templed ymgeisio Cynllun Mynediad a Ffioedd 2019/20

| | |
|----------------------------------|---|
| Enw'r Sefydliad Ymgeisio: | Prifysgol Aberystwyth |
| Cyfeiriad yr Ymgeisydd: | Y Dderbynfa, Campws Penglais, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3FL |

| | Prif gyswllt | Cyswllt arall |
|--------------------------|-----------------------------|-----------------------|
| Enw'r cyswllt: | Yr Athro Elizabeth Treasure | Yr Athro John Grattan |
| Teitl y swydd: | Is-ganghellor | Dirprwy Is-ganghellor |
| Rhif ffôn: | 01970 622010 | 01970 622011 |
| Cyfeiriad e-bost: | vice-chancellor@aber.ac.uk | jpg@aber.ac.uk |

Templed ymgeisio Cynllun Mynediad a Ffioedd 2019/20

Cynllun Mynediad a Ffioedd: ffocws a chynnwys

1. CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae Cynllun Mynediad a Ffioedd Prifysgol Aberystwyth ar gyfer 2019/20 yn adlewyrchu gwerthoedd ein Cynllun Strategol 2018-23, sef Trawsnewidiol, Creadigol ac Arloesol, Cynhwysol, Uchelgeisiol a Chydweithredol. Mae is-strategaeth y Cynllun Strategol, sef y Strategaeth Dysgu ac Addysgu yn sail i lawer o'r gweithgareddau penodol a amlinellir yn y Cynllun Mynediad a Ffioedd hwn.

Yng Nghynllun Mynediad a Ffioedd 2019/20 cefnogir llwyddiant trawsnewidiol myfyrwyr yn ei holl ffurfiau. Mae'r gweithgareddau a gefnogir drwy'r Cynllun wedi'u dewis er mwyn datblygu llinell amser o gymorth i'n holl israddedigion o'r cam ymgeisio hyd at raddio a chyflogaeth neu astudiaethau pellach. Rydym wedi nodi grwpiau penodol nad oes ganddynt gynrychiolaeth ddigonol ac rydym yn cynnig darpariaeth benodol ar eu cyfer hwy neu'n teilwra darpariaeth sydd ar gael yn ehangach, er mwyn sicrhau bod rhwystrau i lwyddo yn cael eu dadansoddi cyn i fyfyrwyr ddod yma ac yn ystod eu hastudiaethau.

Mae'r Cynllun Mynediad a Ffioedd ar gyfer 2019/20 yn adlewyrchu buddsoddiadau mawr i'w gwneud gan y Brifysgol i gefnogi ehangu mynediad, sicrhau profiad myfyriwr rhagorol a llwyddiant i fyfyrwyr, ynghyd â pharatoi ein myfyrwyr ar gyfer cyflogaeth a bywyd ar ôl eu gradd. Amlinellir blaenoriaethau allweddol o dan bob adran o'r Cynllun, ac mae mentrau allweddol sy'n ymateb i'r blaenoriaethau hyn wedi'u hamlinellu isod:

1.1 Sicrhau Cydraddoldeb Cyfle:

- Ar y cam gwneud cais:

Blaenoriaethau Allweddol – chwalu'r rhwystrau rhag mynediad i addysg uwch, boed y rheiny yn ariannol, yn gymdeithasol neu'n gorfforol; mynd ati'n arloesol i ymgysylltu â myfyrwyr o gefndiroedd difreintiedig.

Prif fentrau sy'n ymateb i'r flaenoriaeth hon – Prifysgol Haf Aberystwyth, derbyn wedi'i dargedu, darparu rhaglenni bwrsariaeth i chwalu rhwystrau ariannol.

- Yn ystod eu hastudiaethau:

Blaenoriaethau Allweddol – sicrhau'r gefnogaeth orau i fyfyrwyr â chefnidiroedd gwahanol i gyflawni eu gorau, darparu cefnogaeth ariannol, academaidd a bugeiliol yn ôl yr angen, gyda chefnogaeth adnoddau TG arloesol.

Prif fentrau sy'n ymateb i'r flaenoriaeth hon – datblygu pellach ar y Dangosfwrdd Tiwtor Personol (ALADdin); gwell defnydd ar ddata monitro presenoldeb er mwyn mynd i'r afael â chyfraddau cadw; Cronfa Caledi Aber i roi cymorth ariannol i fyfyrwyr sydd mewn perygl o adael/tynnu'n ôl. Mynediad am ddim i gefnogaeth iechyd a lles.

- Ar ôl graddio:

Blaenoriaethau Allweddol – chwalu'r rhwystrau rhag cael mynediad at yrfae rhagorol, trwy gymorth cyflogadwyedd wedi'i dargedu

Prif fentrau sy'n ymateb i'r flaenoriaeth hon – datblygu cyrsiau gradd Integredig sy'n annog manteisio ar gyfleoedd blwyddyn integredig mewn diwydiant, cynllun AberYmlaen i roi cyfleoedd profiad gwaith a meithrin sgiliau, GwaithAber a chipio data TrywyddGyrfa.

- Sicrhau cyfleoedd i ddysgu a rhagori drwy gyfrwng y Gymraeg.

Prif fenter: Cynllun Cyfannol Strategol i'r Gymraeg Prifysgol Aberystwyth.

1.2 Hyrwyddo Addysg Uwch:

- Ar y cam gwneud cais:

Blaenoriaethau Allweddol – cynnal gwaith rhyngweithiol arloesol gydag ysgolion yn seiliedig ar bwnc; annog uchelgais a gwella dyheadau.

Prif fentrau sy'n ymateb i'r flaenoriaeth hon – Diwrnodau Cyfoethogi yn seiliedig ar bynciau penodol, Ysgoloriaethau Mynediad Aberystwyth.

- Yn ystod eu hastudiaethau:

Blaenoriaethau Allweddol – hyrwyddo llwyddiant myfyrwyr trwy ystod o brosesau adborth cyson ac adolygu perfformiad myfyrwyr, dulliau addysgu arloesol ac adnoddau dysgu rhagorol.

Prif fentrau sy'n ymateb i'r flaenoriaeth hon – System Tiwtor Personol wedi'i gefnogi gan y Dangosfwrdd Tiwtor Personol, monitro presenoldeb yn electronig, meincnodi cyfoedion a'r ap symudol ApAber, manau dysgu ac adnoddau llyfrgell. Mynediad am ddim i gymorth iechyd a lles.

- Ar ôl graddio:

Blaenoriaethau Allweddol – hyrwyddo cyflogadwyedd myfyrwyr.

Prif fentrau sy'n ymateb i'r flaenoriaeth hon – cynyddu nifer y rhaglenni sydd â blwyddyn integredig dramor, cyfres o raglenni profiad gwaith AberYmlaen, GwaithAber a chipio data TrywyddGyrfa.

- Sicrhau cyfleoedd i ddysgu a rhagori drwy gyfrwng y Gymraeg.

Prif fenter: Cynllun Cyfannol Strategol Aberystwyth i'r Gymraeg Prifysgol Aberystwyth

2. LLAIS Y MYFYRWYR

Mae Prifysgol Aberystwyth yn ymgysylltu â'i Hundeb Myfyrwyr a'r corff myfyrwyr ehangach trwy gydol y flwyddyn mewn ystod eang o ffyrdd, yn ffurfiol ac yn anffurfiol. Anogir pob myfyriwr i roi adborth ar eu profiadau a chyfrannu syniadau ac awgrymiadau i helpu i lunio eu haddysg. Mae ein Cynllun Strategol 2018-23 yn ymrwmo i 'wella'r profiad myfyriwr ymhellach a chydweithio'n agos ag Undeb y Myfyrwyr i gadw llais y myfyriwr yn ganolog i'n gweithgaredd.' Rydym yn cefnogi egwyddor graidd *Datganiad Wise Cymru ar Bartneriaeth Addysg Uwch (2014)* sef y dylai 'myfyrwyr fod yn gyfranogwyr gweithredol yn y broses ddysgu, yn hytrach na derbyn gwybodaeth yn oddefol.

2.1 Siarter y Myfyrwyr

Mae Siarter y Myfyrwyr, sy'n cael ei diweddarau'n flynyddol, yn crynhoi pwysigrwydd cynrychiolaeth effeithiol o fyfyrwyr, gydag ymrwymiad i gynnwys cynrychiolwyr myfyrwyr fel partneriaid llawn yn ein pwyllgorau a'n strwythurau.

<https://www.aber.ac.uk/cy/student/charter/>

Yn ogystal, mae Undeb y Myfyrwyr a'r Brifysgol yn llofnodi Cytundeb Perthynas, yn seiliedig ar ddeg egwyddor y cytunwyd arnynt. Mae Egwyddor 4 yn nodi bod 'Prifysgol Aberystwyth yn cydnabod mai UMAber yw prif lais myfyrwyr a bydd yn sicrhau yr ymgynghorir ag UMAber mewn da bryd cyn gwneud penderfyniadau sy'n cael effaith ar fyfyrwyr'. Mae ymgorffori llais myfyrwyr yn ein prosesau llywodraethu yn ffordd i sicrhau yr ymatebir i'r egwyddor hon.

<https://www.aber.ac.uk/en/media/departmental/governance/studentsunion/Relationship-Agreement.pdf>

2.2 Llais y Myfyrwyr wrth Sicrhau Ansawdd, Gwella Ansawdd a Llywodraethu

Ar y lefel uchaf, cynhelir cyfarfodydd rheolaidd rhwng swyddogion Gweithrediaeth y Brifysgol a swyddogion Undeb y Myfyrwyr. Mae'r rhain yn rhoi cyfleoedd i Undeb y Myfyrwyr sicrhau bod yr uwch reolwyr yn gwrando ar lais y myfyrwyr ac yn sicrhau bod cydweithredu agos yn digwydd ar faterion sy'n cyfrannu at lwyddiant myfyrwyr. Yn ogystal â'r cyfarfodydd hyn rhwng y ddwy weithrediaeth, ceir cyfarfodydd anffurfiol aml rhwng yr Is-Ganghellor a llywydd Undeb y Myfyrwyr.

Yn strwythur ffurfiol y Brifysgol mae Undeb y Myfyrwyr wedi penodi cynrychiolwyr myfyrwyr ar gyfer y rhan fwyaf o'n prif bwyllgorau, gan gynnwys:

- Y Cyngor a'i isbwyllgorau
- Y Senedd (sef y prif gorff sy'n gyfrifol am y Strategaeth Dysgu ac Addysgu)
- Cynrychiolwyr ar lefel yr Athrofydd/Cyfadrannau sy'n cymryd rhan mewn trafodaethau ar feysydd allweddol wrth sicrhau ansawdd (gan gynnwys cymeradwyo cynlluniau astudio newydd a'u monitro a'u hadolygu'n flynyddol)
- Cynrychiolwyr adrannau sy'n cymryd rhan yn y Pwyllgorau Ymgynghorol Staff/Myfyrwyr lle gellir codi pryderon myfyrwyr a mynd i'r afael â nhw wrth drafod â myfyrwyr. Mae gwaith y cynrychiolwyr academiaidd yn rhan bwysig o waith Undeb y Myfyrwyr wrth sicrhau bod llais y myfyrwyr yn cael gwrandawriad clir. Mae Cynrychiolwyr Academiaidd yn cael hyfforddiant a chymorth â'u rôl gan Undeb y Myfyrwyr. Maent yn gyfrifol am gynrychioli myfyrwyr ar lefel cwrs, grŵp blwyddyn neu

faes pwnc, neu gallent fod yn gyfrifol am gynrychioli carfanau penodol megis myfyrwyr Cydanrhydedd neu fyfyrwyr Aeddfed.

- Strategaeth Dysgu ac Addysgu (Cynllun Llwyddiant Myfyrwyr). Caiff y Strategaeth Dysgu ac Addysgu ei rhoi ar waith drwy sawl ffrwd gwaith. Mae cynrychiolwyr myfyrwyr ar grwpiau gweithredu pob ffrwd berthnasol.

2.3 Gwrando ar lais ehangach y Myfyrwyr ar gyfer y Cynllun Mynediad a Ffioedd.

Mae Strategaeth Dysgu ac Addysgu Prifysgol Aberystwyth (Cynllun Llwyddiant Myfyrwyr) yn rhaglen weithgareddau gwella addysgu a dysgu ledled y brifysgol. Mae cynrychiolaeth myfyrwyr ym mhob ffrwd gwaith priodol yn sicrhau bod mentrau sy'n denu cyllid y Cynllun Mynediad a Ffioedd yn ymateb i lais ac anghenion myfyrwyr. Mae gweithio mewn partneriaeth gydag Undeb y Myfyrwyr a'r corff myfyrwyr ehangach wedi'i ymgorffori yn y dull hwn.

Cylch gwaith y Grŵp Profiad Myfyrwyr a Chyfoethogi, sy'n cynnwys myfyrwyr a staff, yw brysbennu a dadansoddi sylwadau ac adborth myfyrwyr a dderbynnir trwy'r prif lwybrau canlynol:

- Pwyllgorau Ymgynghori Staff-Myfyrwyr (y system gynrychiolaeth academiaidd)
- cynllun adborth y Brifysgol Dy Lais ar Waith / *Your Voice Matters*

Mae Dy Lais ar Waith yn ddull ledled y Brifysgol i ymgysylltu â myfyrwyr sy'n annog myfyrwyr i awgrymu ffyrdd i wella gweithgareddau a phrosesau yn y Brifysgol. Mae dwy elfen i Dy Lais ar Waith:

- *Rho wybod nawr* – porth dienw ar-lein lle gall myfyrwyr gyfrannu syniadau a sylwadau. Mae hyn yn hanfodol i fonitro bod buddion mentrau yn cael eu gwireddu.
- *Holiaduron Gwerthuso Modiwlau* – mae holiaduron wedi'u cydlynu'n ganolog yn cael eu dosbarthu ar gyfer pob modiwl, gan alluogi toreh o ddata a gwybodaeth i lywio dull adrannau a dull cyffredinol y Brifysgol o wella profiad myfyrwyr.

Caiff dadansoddiad ac argymhellion y Grŵp Profiad Myfyrwyr a Chyfoethogi eu dangos i'r holl staff sy'n ymwneud ag arweinyddiaeth a chynllunio academiaidd, ac mae'n bwydo i'r uwch reolwyr. Mae'r dadansoddiad yn llywio penderfyniadau strategol ynghylch lefelau buddsoddiad, gan gynnwys gwariant y Cynllun Mynediad a Ffioedd. Mae'r ddolen adborth i'r myfyrwr (ynghylch y gweithredu a wnaed) yn cael ei chlymu trwy ymgyrch gyfathrebu reolaidd sy'n rhoi gwybodaeth i fyfyrwyr ynghylch sut mae eu lleisiau yn sbarduno newid.

2.4 Llais y Myfyrwyr wrth gytuno ar Gynllun Mynediad a Ffioedd 2019/20

Mae blaenoriaethau a chynnwys Cynllun Mynediad a Ffioedd 2019/20 wedi'u trafod yn llawn gyda swyddogion ein Hundeb Myfyrwyr, a hwythau wedi cymeradwyo'r buddsoddiadau a gynlluniwyd. Mae'r UM yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am yr ymatebion i Llais y Myfyrwyr a wnaed trwy'r Grŵp Profiad Myfyrwyr a Chyfoethogi. Mae cyfarfod ag Undeb y Myfyrwyr yn galluogi eglurder ynghylch ymhle y mae'r Cynlluniau Mynediad a Ffioedd yn cyd-fynd â blaenoriaethau, ymgyrchoedd a phryderon Undeb y Myfyrwyr.

Mae aliniad agos y Cynllun Mynediad a Ffioedd â'r Strategaeth Dysgu ac Addysgu (Cynllun Llwyddiant Myfyrwyr), sy'n cael ei adolygu a'i ddiwygio gan fyfyrwyr trwy ei strwythurau rheoli, hefyd yn sicrhau bod gweithgareddau yn y Cynllun yn ymateb i fewnbwn myfyrwyr.

Mae Llywydd Undeb y Myfyrwyr a Swyddog Materion Cymru/Llywydd UMCA hefyd yn aelodau o Gyngor y Brifysgol, a gymeradwyodd fersiwn derfynol Cynllun Mynediad a Ffioedd 2019/20.

Mae'r Brifysgol yn gweithio gyda nifer o bartneriaid i sicrhau darpariaeth Israddedig ledled Cymru ac yn cydnabod ei chyfrifoldebau tuag at y myfyrwyr hynny. Yn ystod 2018/19 roedd gan y Brifysgol gyrsiau wedi'u rhyddfrenio i Goleg Cambria ac i Goleg Gwent. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid i sicrhau ansawdd y ddarpariaeth a phrofiad y myfyriwr. Mae'r gofyniad i ymgysylltu'n briodol â llais myfyrwyr wedi'i ymgorffori yn ein cytundebau partneriaeth, ac wrth ddatblygu Cynllun Ffioedd 2019/20 rydym wedi cynnal trafodaethau gyda phartneriaid rhyddfraint ac rydym yn sicr bod eu prosesau ar gyfer cynrychiolaeth myfyrwyr yn gadarn a bod gan fyfyrwyr fecanwaith ar gyfer mynegi eu hanghenion a chael yr anghenion hynny wedi'u diwallu. Rydym hefyd yn hyderus bod lefel y buddsoddiad yn y Colegau Partner yn bodloni gofynion y Cynllun Ffioedd. Mae'r ddau bartner yn cymryd rhan, er enghraifft, yn ein Holiaduron Gwerthuso Modiwlau, yn ogystal â bod â ffyrdd eraill o ymgysylltu â llais y myfyrwyr. Yng Ngholeg Cambria mae hyn ar ffurf cynrychiolaeth myfyrwyr ar y Grŵp Gweithredol Addysg Uwch. Derbynnir adborth myfyrwyr hefyd drwy'r Holiaduron Gwerthuso Modiwlau a thrwy Arolygon Cenedlaethol Myfyrwyr 'ffug'. Yn ogystal, mae ein Hundeb Myfyrwyr yn weithgar gyda myfyrwyr yn ein partneriaid rhyddfraint.

2.5 Sut caiff lefelau ffioedd arfaethedig, gan gynnwys lefelau ffioedd cyfanredol, eu cyfleu i'r myfyrwyr:

Bydd Aberystwyth yn codi'r lefel ffi uchaf ar gyfer israddedigion Cartref a TAR llawn amser sy'n dod o dan y cynllun hwn, ac ar gyfer y cyfnod 2019/20 yn unig. Llywodraeth Cymru sy'n pennu'r ffi uchaf ac ar hyn o bryd mae'n £9,000. Bydd unrhyw gynnydd yn y ffi llawn amser Cartref/UE a TAR ar gyfer 2019/20 neu flynyddoedd y cwrs yn y dyfodol ynghlwm â'r cynnydd ffioedd uchaf sy'n gysylltiedig â chwyddiant, i'w bennu gan Lywodraeth Cymru. Bydd ffioedd cyfanredol am hyd cyfan y cwrs yn dibynnu ar hyd y rhaglen (mae'r rhan fwyaf o'n rhaglenni israddedig yn dair neu bedair blynedd o hyd), ac a yw'r rhaglen yn cynnwys Blwyddyn Astudio Dramor ai peidio (y ffi gyfredol yw £1,350) neu Flwyddyn mewn Diwydiant (y ffi gyfredol yw £1,800), ac a oes cynnydd sy'n gysylltiedig â chwyddiant fel yr amlinellwyd uchod.

Ar adeg ysgrifennu hwn, roedd y ffi hon hefyd yn berthnasol i fyfyrwyr o wledydd y tu allan i'r Deyrnas Unedig; gall hyn fod wedi newid cyn i'r Cynllun Ffioedd ddod i rym.

Ar gyfer rhaglenni Israddedig sydd â blwyddyn astudio integredig dramor, codir 15% o'r ffi uchaf ar y Flwyddyn Astudio Dramor, yn unol â chanllawiau CCAUC.

Ar gyfer rhaglenni israddedig sydd â blwyddyn integredig mewn diwydiant / blwyddyn integredig mewn ymarfer proffesiynol, codir y ffi am y flwyddyn allan yn 20% o'r ffi uchaf, yn unol â chanllawiau CCAUC.

Cynhelir adolygiad blynyddol ar ffioedd rhaglenni israddedig a gynigir am lai na'r uchafswm (gan gynnwys y rhai yn ein partneriaid Rhyddfraint), a gallai hynny arwain at gynnydd na fydd byth yn fwy na chwyddiant neu 5% flwyddyn ar ôl blwyddyn (pa un bynnag yw'r isaf).

Mae modd cael gwybodaeth am y ffioedd ar wefan y Brifysgol yn <https://www.aber.ac.uk/cy/undergrad/fees-finance/tuition-fees/#2017-18>

Mae ffioedd dysgu ar gyfer israddedigion Cartref / UE yn cael eu rheoleiddio gan Lywodraeth Cymru. Bydd y Brifysgol yn diwygio holl Ffioedd Dysgu Israddedig Cartref / UE yn unol ag unrhyw newid a gynghorir gan Lywodraeth Cymru.

Byddwn yn cydymffurfio â chanllawiau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) wrth ddatblygu'r holl ohebiadau a chyfathrebu.

Rhoddir eglurdeb am lefel y ffi a'r cymorth ariannol sydd ar gael drwy'r canlynol:

- Gwybodaeth yn y prospectws
- Tudalennau pwrpasol ar wefan y Brifysgol
- Gwybodaeth Allweddol ar dudalennau cyrsiau (sydd wedi'u cysylltu â thudalennau UCAS)
- Cyflwyniadau a desgiau ymholi penodol mewn Diwrnodau Agored a Diwrnodau Ymweld; ac ardal bwrpasol ar y Diwrnod Agored Rhithiol.
- Anfonir llythyrau unigol at ymgeiswyr sy'n derbyn cynnig am le ym Mhrifysgol Aberystwyth fel rhan o'r broses dderbyn ac yn y llythyr hwnnw cadarnheir lefel ffioedd eu cwrs.
- Mae myfyrwyr sydd â chynnig hefyd yn cael gwybod am y Telerau ac Amodau sy'n berthnasol i bob myfyriwr sy'n dechrau ar eu cwrs yn ystod eu blwyddyn mynediad, gan wneud y contract rhwng y Brifysgol a'r myfyriwr yn fwy tryloyw. Mae'r telerau ac amodau hyn yn cynnwys gwybodaeth fanwl am ffioedd, gan gynnwys statws ffioedd ac unrhyw newidiadau i ffioedd. Mae hyn yn unol â chanllawiau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnata.
- Caiff ffioedd, bwrsariaethau a gwobrau eu hysbysebu'n eang drwy ein Diwrnodau Agored a'n Diwrnodau Ymweld a thrwy ein cyflwyniadau Diwrnod Agored rhithiol ar y we.
- Caiff manylion am y ffioedd a'r cymorth ariannol sydd ar gael eu cynnwys yn y llyfryn 'Gwybodaeth i Ymgeiswyr Llwyddiannus' a anfonir drwy'r post at ymgeiswyr wrth wneud cynnig iddynt.

Mae cyfathrebu ffioedd i ddarpar ymgeiswyr, yn enwedig y rheini o gefndiroedd ehangu mynediad a allai fod yn fwy amharod i fynd i ddyled, yn hanfodol er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn gwneud dewis gwybodus, hyderus am brifysgol. Rydym yn ymwybodol iawn o'r pwysau y mae myfyrwyr yn eu hwynebu. Mae cyfathrebiadau ychwanegol yn cynnwys:

- Rydym yn esbonio'r lefelau ffioedd a'r gefnogaeth sydd ar gael i fyfyrwyr trwy ein gweithgareddau cyswllt ysgolion (gan gynnwys manylion y gwahanol lefelau o gefnogaeth sydd ar gael i fyfyrwyr o Gymru a myfyrwyr sy'n hanu o weddill y Deyrnas Unedig), gan gynnwys cyflwyniadau i ysgolion a cholegau;
- Cyfathrebiadau penodol i fyfyrwyr o gefndir gofal neu rai wedi ymddieithrio oddi wrth eu teulu, Gofalwyr sy'n Oedolion Ifanc a myfyrwyr ag anableddau a allai gael cymorth ychwanegol.
- Rhoddir gwybodaeth i ymgeiswyr am gymorth y gallant ei gael yn ystod eu hastudiaethau, gan gynnwys mynediad at gyfleoedd gwaith ar y campws (GwaithAber), y gronfa caledi a chyingor ar gynllunio ariannol.

3. GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH

Mae Cynllun Strategol newydd Prifysgol Aberystwyth yn rhoi pwyslais mawr ar genhadaeth ddinesig, gydag adrannau pwrpasol ar "Ein Lle mewn Cymdeithas":

“Rydym yn brifysgol ddwyieithog, wedi'i gwreiddio yng Nghymru ac yn croesawu'r byd. Rydym bob amser wedi cyfrannu'n sylweddol i Gymru a thu hwnt, gan fanteisio ar ein cymunedau a'n cymdeithas trwy effaith ein hymchwil, ein haddysg a chyraeddiadau ein staff, myfyrwyr a'n cyn-fyfyrwyr. Rydym yn trwytho'n graddedigion gyda hyfforddiant academaidd a gwerthoedd dinasyddiaeth byd-eang a chenedlaethol. Rydym yn deall ein cyfrifoldeb a'n hatebolrwydd i gymdeithas. Rydym am fod yn hygyrch, yn berthnasol ac ynghlwm â'n cymunedau a'n rhanddeiliaid. Yn anad dim, rhaid i ni fod yn ffynhonnell awen ac ysbrydoliaeth. Byddwn yn cryfhau a chyfathrebu'n well y dimensiwn hwn o'r gwaith dros y pum mlynedd nesaf.”

Mae gweithio mewn partneriaeth gyda grwpiau allanol, y gymuned, mudiadau a sefydliadau yn rhan allweddol o'n Cynllun Mynediad a Ffioedd 2019/20.

3.1 Partneriaid Myfyrwyr yn y Gymuned

Mae'r Brifysgol yn cydnabod gwerth gwirfoddoli fel rhan o brofiad y myfyriwr a'i werth yn datblygu sgiliau trosglwyddadwy ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol, yn ogystal ag wrth fynegi dyletswydd cenhadaeth ddinesig y Brifysgol. Mae enghreifftiau o wirfoddoli heriol a gwerthfawr a wnaed gan fyfyrwyr wedi cynnwys gwaith gyda menywod sydd ar brawf yn hytrach na mynd i'r carchar, cymryd rhan yng ngwasanaeth Ambiwlans Sant Ioan ac fel gwirfoddolwyr cadwraeth gydag Aberystwyth Beach Buddies, yn ogystal â gweithio gydag AberAid i gefnogi ffoaduriaid, cadetiaid môr a sgowtiaid, badau achub/achub bywyd, cefnogi clybiau ar ôl ysgol, cynnal clinigau i roi cyngor cyfreithiol am ddim, a gweithio gyda Fforwm Cymunedol Penparcau.

Rydym yn cydnabod y rhwystrau i wirfoddoli a nodwyd yn adroddiad yr UUK *Breaking Down the Barriers to Student Opportunities and Youth Social Action* (Gorffennaf 2015), ac rydym yn gweithio drwy Undeb y Myfyrwyr a'n Gwasanaeth Cyngori Gyrfaoedd i ddarparu amrywiaeth o gyngor a chymorth i fyfyrwyr sydd â diddordeb mewn gwirfoddoli ac annog rhagor o fyfyrwyr i weld gwerth ymgymryd â rolau gwirfoddol. Y nod yw chwalu rhwystrau megis argraffiadau gwael, diffyg cymorth arbenigol a biwrocratiaeth drwy ddarparu cyngor hygyrch a'i gwneud mor rhwydd â phosibl i'n myfyrwyr gofrestru ar gyfer swyddi gwirfoddol.

Mae Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth wedi'i achredu â chynllun 'Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr'. Mae Cynllun Mynediad a Ffioedd y Brifysgol ar gyfer 2019/20 yn cynnig cymorth i Undeb y Myfyrwyr ac i'r Gwasanaeth Cyngori Gyrfaoedd, gan fod y ddau yn ffynonellau allweddol i gael gwybodaeth ariannol a chefnogaeth i'n gwirfoddolwyr ymhlith y myfyrwyr.

3.2 Partneriaeth â Chyflogwyr

Mae'r Cynllun Mynediad a Ffioedd ar gyfer 2019/20 yn cynnwys cymorth ar gyfer cefnogi a chanfod profiad gwaith ystyrlon mewn partneriaeth â chyflogwyr lleol, cenedlaethol a rhyngwladol – mewn rhaglenni 4 blynedd integredig, neu am gyfnodau byrrach, yn ogystal ag ar gyfer gweithio gyda chyflogwyr i ddod i'r campws i ryngweithio â myfyrwyr, ac i gynnal Ffeiriau Gyrfa a chyfweliadau ar y campws. Ymhlith y partneriaethau â chyflogwyr lleol mae: Network Rail, Rachel's Dairy, y diwydiant lletygarwch lleol, Marks & Spencer, Tesco, y bwrdd iechyd lleol, cwmnïau cyfreithiol ledled Cymru, Llywodraeth Cymru, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

3.3 Partneriaid Rhanbarthol ar gyfer Ehangu Mynediad

Rydym yn falch o weithio gyda phartneriaid rhanbarthol i gefnogi Ehangu Mynediad yng Nghymru trwy'r bartneriaeth Ymgymraedd yn Ehangach a thrwy ystod o weithgorau rhanbarthol eraill. Rydym yn cefnogi Grŵp Gweithredol Rhanbarthol Ymgymraedd yn Ehangach trwy gynnal cyfarfodydd gyda nhw yn ein Hyb. Mae Cyfarwyddwr Ehangu Cyfranogiad a Chynhwysiant Cymdeithasol Prifysgol Aberystwyth yn aelod o grŵp Llesiant

Cenedlaethau'r Dyfodol Addysg Uwch sy'n weithredol ar hyd Cymru gyfan ac yn cydlynu â Llywodraeth Cymru a'r Comisiynydd trwy hyn, gan helpu i rannu arfer gorau a'i ymgorffori yn y cwricwlwm. Caiff cyllid Ymgyrraedd yn Ehangach ei ddyrannu bob blwyddyn ac, mewn blynyddoedd blaenorol, fe'i defnyddiwyd i helpu i gefnogi myfyrwyr ar gyrsiau preswyl a chyfrannu at weithio gyda myfyrwyr ar Fagloriaeth Cymru. Yn gyfnewid am hyn, rydym yn darparu gofod swyddfa a chyflenwadau ar gyfer un aelod o staff Ymgyrraedd yn Ehangach yn Aberystwyth fel cyfrannu mewn nwyddau.

Rydym hefyd yn weithgar yn y grŵp ledled Cymru gyfan ar Gydraddoldeb, gan rannu arfer gorau a datblygu polisïau i sicrhau rhywfaint o gonsensws ar faterion cydraddoldeb ledled Cymru. Rydym yn gweithio'n agos gyda Grŵp CLASS Cymru i sicrhau bod gwell gwybodaeth ar gael i ymarferwyr, rhieni maeth a gweithwyr cymdeithasol sy'n darparu ar gyfer anghenion Gofalwyr a Phlant sy'n Derbyn Gofal. Mae pob un o'r partneriaethau hyn yn ein galluogi i ddysgu o arferion da a'u rhannu, ac mae'n bwydo i ddatblygu darpariaeth a chefnogaeth o ansawdd i'n myfyrwyr.

3.4 Partneriaeth a Darpariaeth wedi'i Rhyddfrenio


Mae'r Brifysgol yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau darpariaeth Israddedig ledled Cymru ac yn cydnabod ei chyfrifoldebau tuag at y myfyrwyr hynny. Yn ystod 2019/20 mae gan y Brifysgol gyrsiau wedi'u rhyddfrenio i Goleg Cambria ac i Goleg Gwent. Bydd y Brifysgol yn gweithio'n agos gyda'i phartneriaid i sicrhau ansawdd y ddarpariaeth a phrofiad y myfyriwr. Mae'r gofyniad i ymgysylltu'n briodol â llais y myfyrwyr wedi'i ymgorffori yn ein cytundebau partneriaeth rhwng Prifysgol Aberystwyth a deiliad y rhyddfrenio. Wrth ddatblygu Cynllun Ffioedd 2019/20, adolygwyd cytundebau gyda phartneriaid. Mae ein prosesau sicrhau ansawdd yn sicrhau bod prosesau ar gyfer cynrychiolaeth myfyrwyr yn gadarn a bod gan fyfyrwyr fecanwaith ar gyfer mynegi eu hanghenion a chael yr anghenion hynny wedi'u diwallu. Yng Ngholeg Cambria, er enghraifft, mae hyn ar ffurf cynrychiolaeth myfyrwyr ar y Grŵp Gweithredol Addysg Uwch.

4. Y SAIL RESYMEGOL (GAN GYNNWYS DULL STRATEGOL)

Ein nod trosfwaol yng Nghynllun Mynediad a Ffioedd 2019/20 yw buddsoddi incwm ffioedd yn strategol mewn gweithgareddau a fydd yn cynorthwyo'r holl israddedigion o'r cam ymgeisio hyd at raddio a thu hwnt, gan gynorthwyo â llwyddiant i holl israddedigion Prifysgol Aberystwyth, waeth beth fo'u cefndir. Mae ein Cynllun Strategol 2018-23 newydd hefyd yn rhoi ffocws cryfach ar safle'r Brifysgol mewn cymdeithas, gan ei gwneud yn glir ein bod *'yn trwytho'n graddedigion gyda hyfforddiant academaidd a gwerthoedd dinasyddiaeth byd-eang a chenedlaethol.'*

4.1 Adolygu Cynlluniau Mynediad a Ffioedd blaenorol

Mae Prifysgol Aberystwyth yn falch o'r gwaith rydym ni wedi'i gyflawni drwy gynlluniau ffioedd blaenorol – mae hyn wedi arwain at welliant cyson mewn nifer o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol yn ymwneud â llwyddiant myfyrwyr dros y pedair blynedd diwethaf. Mae buddsoddi ym mhrofiad y myfyriwr a gweithio'n agos â'n myfyrwyr mewn partneriaeth ac mewn ymateb i adborth myfyrwyr wedi arwain at welliant aruthrol yng nghyfartaledd sgoriau'r NSS. Yn arolwg yr NSS yn 2017 (y canlyniadau olaf a oedd ar gael ar adeg ysgrifennu'r cynllun hwn), sgoriodd Aberystwyth yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer sefydliadau addysg uwch Cymru ym mhob maes cwestiynau. Mae hyn yn adlewyrchu buddsoddiadau o'r cynlluniau ffioedd mewn dysgu ar-lein, gwella parhaus ar ein hamgylchedd dysgu ac addysgu, gweithgareddau i wella ein systemau tiwtoriaid personol a buddsoddi yn ein systemau llyfrgell a TG.



* Sylwer bod 'cyfartaledd y sector' uchod yn cynrychioli'r sgoriau cyfartalog o'r 133 sefydliad AU sydd wedi'u cynnwys yn y *Good University Guide* gan *The Sunday Times*.


Rydym hefyd wedi defnyddio Cynlluniau Ffioedd olynol i fuddsoddi mewn gweithgareddau sy'n cefnogi cyflogadwyedd graddedigion ac wedi gweld gwelliant cyson ond sylweddol yn y metrigau sy'n mesur hyn. Mae dau fesur yn ymwneud â chyflogaeth graddedigion. Mae'r Dangosydd Rhagolygon Cyflogaeth (EPI) yn mesur cyfran y graddedigion sydd mewn gwaith neu mewn astudiaeth bellach chwe mis ar ôl iddynt raddio. Mae hyn wedi gwella'n gyson gennym dros y tair blynedd diwethaf:

| Myfyrwyr yn graddio yn | % mewn gwaith neu astudiaeth bellach |
|------------------------|--------------------------------------|
| 2014 | 93.2% |
| 2015 | 93.9% |
| 2016 | 95.1% |

Rydym hefyd wedi gweld cynnydd yng nghyfran y rhai mewn cyflogaeth neu astudiaeth bellach lle mae'r gyflogaeth neu'r astudiaeth bellach ar lefel broffesiynol (Dangosydd Rhagolygon Graddedigion).


| Myfyrwyr yn graddio yn | % mewn gwaith neu astudiaeth bellach pan fo hyn ar lefel broffesiynol |
|------------------------|---|
| 2014 | 62.5% |
| 2015 | 68.2% |
| 2016 | 74.3% |

Mae cyfraddau cwblhau a chadw, fel y'u mesurir gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) fel rhan o'i Dangosyddion Perfformiad blynyddol, ymhlith y gorau yn y sector a thrwy fuddsoddiad strategol wedi'i dargedu, rydym yn ceisio cadw'r record hon ynghyd â gwella arni. Fel y gwelir o'r graff canlynol, mae Aberystwyth wedi perfformio'n well na chyfartaledd y Deyrnas Unedig, cyfartaledd Cymru a'r meincnod a osodwyd ar ei gyfer gan HESA, gan berfformio'n gyson 2% pwynt yn well.



Fodd bynnag, mae'n amlwg i ni nad ydym eto'n gweld y gwelliannau y byddem yn eu disgwyl o'r buddsoddiad a wnaed hyd yma. Mae ffrwd cadw myfyrwyr yn y Strategaeth Dysgu ac Addysgu wedi'i gryfhau ar gyfer Cynllun Mynediad a Ffioedd 2019/20 ymlaen, o ganlyniad uniongyrchol i'n gwerthusiad o effeithiolrwydd ein hymyriadau hyd yma.

Mae'r buddsoddiadau o'r Cynlluniau Mynediad a Ffioedd wedi'n helpu ni i roi cymorth parhaus i'n gweithgareddau ehangu mynediad (gan gynnwys ein Prifysgol Haf). Yn y dangosydd perfformiad yn y Deyrnas Unedig sy'n mesur cyfranogiad grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn AU, rydym wedi dilyn tueddiadau'r DU a thueddiadau Cymru yng nghyfran y myfyrwyr o gymdogaethau cyfranogiad isel yr ydym wedi llwyddo i'w recriwtio i astudio yn Aberystwyth. Rydym yn gweithio i aros uwchlaw'r meincnodau a osodwyd ar ein cyfer gan HESA yn y dangosydd hwn, sy'n ystyried ffactorau cyd-destunol a all effeithio ar lwyddiant yn y dangosydd hwn.



4.2 Lefelau Buddsoddi

Er mwyn adeiladu ar y gwelliannau rydym wedi'u gwneud i'n seilwaith a'n gweithgareddau, rydym wedi mynd ati, ers ein Cynlluniau 2017/18, i ddatblygu Cynlluniau Mynediad a Ffioedd sy'n galluogi gwelliant parhaus mewn gweithgareddau sy'n cefnogi myfyrwyr ar bob cam o'u bywyd prifysgol. Mae amcanion y Cynllun, a nodir o dudalen 40 ymlaen, yn ymateb i amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer cefnogi myfyrwyr yng Nghymru, ac yn mapio ar daith myfyrwyr o'r cam cyn mynediad a'u dyheadau bryd hynny hyd at gyflogadwyedd graddedigion ac astudio pellach.

Mae lefel y buddsoddiad a ragwelir yng nghategoriâu'r ddarpariaeth yn seiliedig ar yr egwyddorion canlynol:

Rydym yn bwriadu gwario rhwng 15% a 17% o incwm Cynllun Mynediad a Ffioedd ar weithgareddau ein Cynllun Mynediad a Ffioedd.

Mae cyfran sylweddol o israddedigion Aberystwyth yn dod o un neu fwy oategoriâu grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch. Mae ein gwaith i gefnogi Cydraddoldeb Cyfle i'r myfyrwyr hyn drwy'r Cynllun Mynediad a Ffioedd yn cydnabod ac yn ymateb i nifer o rwystrau i fynediad:

- Rhwystrau Ariannol – canfu adroddiad llywodraeth y Deyrnas Unedig ar 'Socio-economic, ethnic and gender differences in HE participation' (Tachwedd 2015) er bod rhagor yn cymryd rhan mewn addysg uwch a bod gwelliannau yn nifer y myfyrwyr o gefndiroedd mwy difreintiedig, *mae gwahaniaethau economaidd-gymdeithasol sylweddol yn parhau o ran cyfranogiad mewn addysg uwch*, gyda disgyblion o'r grŵp cwintel economaidd-gymdeithasol uchaf tua thair gwaith yn fwy tebygol o fynd i'r brifysgol na'r rhai yn y grwpiau isaf. Mae ein Cynllun Mynediad a Ffioedd ar gyfer 2019/20 yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cronfeydd bwrsariaeth a chaledi, cyngor ar arian a darparu cyfleoedd gwaith, er mwyn sicrhau bod gennym becyn o weithgareddau sy'n ymateb i bryderon ariannol darpar fyfyrwyr.

- Rhwystrau Cymdeithasol – yn aml mae gan fyfyrwyr o grwpiau ehangu mynediad lai o ‘gyfalaf cymdeithasol’ na myfyrwyr eraill. Efallai nad oes ganddynt hyder yn eu gallu eu hunain ac, yn enwedig yn achos myfyrwyr sydd yn gyntaf yn y teulu i fynd i Addysg Uwch, efallai y bydd angen cefnogaeth ac anogaeth ychwanegol arnyn nhw i fynd drwy’r broses ymgeisio neu ddewis cwrs priodol. Byddwn yn buddsoddi mewn gweithgareddau sy’n mynd i’r afael â hyn, gan gynnwys gwaith ag ysgolion, gweithgareddau sydd wedi’u hanelu at grwpiau dysgwyr penodol (gan gynnwys ymadawyr gofal) a gweithgareddau codi dyheadau, gan gynnwys rhai sy’n benodol i bwnc.
- Rhwystrau Corfforol – er mwyn sicrhau nad oes unrhyw anhygyrchedd yn atal unrhyw fyfyrwr a all ddewis astudio yn Aberystwyth, rydym yn buddsoddi yn ein hystad gorfforol ac mewn sicrhau bod offer cyfrifiadurol a TG yn cefnogi pob myfyrwr ac ar gael iddynt oll.

Bydd meysydd buddsoddi a nodwyd gan y Strategaeth Dysgu ac Addysgu yn cael eu hadolygu’n flynyddol a byddant yn canolbwyntio ar wella perfformiad wrth hyrwyddo Addysg Uwch trwy fod yn ymatebol i lais a bodlonrwydd myfyrwyr, cyfraddau cadw, cyflawniad a chyflogadwyedd. (Gweler 4.4, Y Strategaeth Dysgu ac Addysgu).

4.3 Ymgorffori ac Alinio’r Cynllun Mynediad a Ffioedd yn strategol

Amcanion strategol

Nod Cynllun Strategol Prifysgol Aberystwyth 2018-23 yw ‘*galluogi ein myfyrwyr i ddatgloi eu potensial a datblygu fel dysgwyr annibynnol mewn cymuned ddwyieithog gefnogol a chreadigol. Bydd ein myfyrwyr yn graddio yn feddylwyr beirniadol annibynnol gyda sgiliau trosglwyddadwy a disgyblaeth-benodol.*’

Dyma’r meysydd blaenoriaeth strategol sy’n codi o’n Cynllun Strategol newydd:

Dysgu ac Addysgu

- Datblygu parhaus ar y ddarpariaeth israddedig er mwyn sicrhau cyrsiau deniadol o ansawdd uchel, gan arwain at gyflogaeth ar lefel graddedig.
- Datblygu addysgu a dysgu arloesol (gan gynnwys dysgu hyblyg) sy’n cael ei gydnabod fel meincnod sector o arfer gorau yn y ddwy iaith.
- Ymgorffori sgiliau cyflogadwyedd gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer profiad gwaith, gwirfoddoli, profiad rhyngwladol a sgiliau trosglwyddadwy ac ati.
- Pwyslais ar ddatblygu staff mewn addysgeg i ysgogi gwelliant parhaus.
- Gwella ymhellach ar brofiad y myfyrwyr mewn partneriaeth agos ag Undeb y Myfyrwyr, gan roi llais y myfyrwr wrth galon ein gweithgarwch.

Partneriaethau ac ehangu cyfranogiad a chenhadaeth ddinesig

- Defnyddio ein harbenigedd i feithrin datblygiad economaidd yn lleol, ac mewn lleoliadau dethol.
- Creu cynnig hollddisgyblaethol i’r holl fyfyrwyr, sydd hefyd yn cynnwys y gymuned, er mwyn trafod materion ehangach a chael eu hymestyn y tu hwnt i’w cwricwlwm eu hunain.
- Gweithio gydag ysgolion, colegau AB a chyflogwyr wrth wella dysgu trawsgwricwla 14 i 19 ledled Cymru.

- Parhau i annog cyfranogiad mewn cyfleoedd amrywiol ac eang gan gynnwys Canolfan y Celfyddydau.
- Cryfhau'r cydweithio rhwng y dref a'r brifysgol, gan ddatblygu gweithgareddau megis gwirfoddoli myfyrwyr.

Yr iaith Gymraeg a'i diwylliant

- Hyrwyddo datblygu darpariaeth academaidd Cymraeg, gan gynnwys disgyblaeth y Gymraeg.
- Sicrhau amgylchedd sy'n galluogi myfyrwyr i fyw a dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Sicrhau cyfleoedd Cymraeg o ran elfennau megis lleoliadau mewn cyflogaeth a blynyddoedd mewn diwydiant.
- Annog staff a myfyrwyr newydd i fanteisio ar gyfleoedd dysgu Cymraeg a gwerthfawrogi cyd-destun economaidd-gymdeithasol a diwylliannol Cymru.

Seilwaith cynaliadwy

- Y sail i gyflawni cenhadaeth academaidd y Brifysgol yw strategaeth ariannol gadarn sy'n sicrhau cynaliadwyedd ariannol ac yn galluogi buddsoddiad wedi'i gynllunio yn yr ystad a'r seilwaith dysgu ac addysgu i wella profiad myfyrwyr a staff.

4.4 Y Strategaeth Dysgu ac Addysgu

Mae'r Cynllun Mynediad a Ffioedd hefyd yn tynnu ar ein Strategaeth Dysgu ac Addysgu, sy'n is-strategaeth i'r Cynllun Strategol ac mae'n cynnwys pwyslais ar y canlynol:

- Gwrando ar Lais y Myfyriwr ac ymateb iddo
- Gwella'r profiad dysgu trwy addysgu rhagorol a dulliau addysgu arloesol
- Gwella asesu ac adborth
- Hyrwyddo cyfraddau cadw
- Hyrwyddo cyflawniad myfyrwyr trwy adnoddau dysgu, cefnogaeth academaidd a dadansoddeg dysgwyr
- Hyrwyddo profiad o gyflogaeth a sgiliau cyflogadwyedd
- Cefnogi gweithredu Cynllun Cyfannol Strategol i'r Gymraeg y Brifysgol.

4.5 Y Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol Prifysgol Aberystwyth yn rhedeg hyd at 2020 ac mae'n ein hymrwymo i ddarparu amgylchedd dysgu ac addysgu cynhwysol, wedi'i hyrwyddo trwy ein prosesau recriwtio, rheoli ystadau, dulliau cefnogi myfyrwyr a chyfathrebu. Adlewyrchir amcanion cydraddoldeb y Cynllun sy'n ymwneud â myfyrwyr a phrofiad myfyrwyr yn y Cynllun Mynediad a Ffioedd ar gyfer 2019/20:

- Ymgorffori rôl data Cydraddoldeb ac Amrywiaeth wrth wneud penderfyniadau strategol – defnyddir data i nodi'r grwpiau hynny heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch ac i fonitro llwyddiant y Brifysgol wrth ddenu, cadw a hyrwyddo llwyddiant aelodau o'r grwpiau hyn.
- Darparu Dysgu ac Addysgu cynhwysol (gan gynnwys recriwtio a chadw corff amrywiol o fyfyrwyr) – mae'r Cynllun Mynediad a Ffioedd yn cynnwys gweithgareddau i gael gwared ar rwystrau rhag mynediad i fyfyrwyr o gefndir ehangu mynediad, ac mae hefyd yn cynnwys gweithgareddau i gynorthwyo myfyrwyr i lwyddo a gwella cyfraddau cadw.

- Darparu Ystad a Chyfleusterau cynhwysol, gan gwmpasu Mynediad yn ei ystyr ehangaf – mae'r Cynllun Mynediad a Ffioedd yn cynnwys ymrwymadau i ddatblygu ein Hystad er mwyn iddi fod yn gorfforol hygyrch ond hefyd o ran sicrhau bod lleoedd yn ddiogel ac yn groesawgar i'r holl fyfyrwyr.

Adlewyrchir y blaenoriaethau hyn yng ngwaith ein Cynllun Mynediad a Ffioedd 2019/20.

4.6. Grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch

Rydym yn sylweddoli bod y grwpiau canlynol wedi'u tangynrychioli mewn addysg uwch ac/neu angen cymorth ychwanegol. Mae'r grwpiau naill ai eisoes yn cael eu cydnabod gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) fel dangosydd cenedlaethol o berfformiad cyfranogiad isel mewn addysg uwch neu wedi'u nodi gan gyrrff allanol eraill fel rhai sydd angen cymorth ychwanegol i ymgysylltu ag addysg uwch a mynd i mewn iddi, neu gallant fod yn grwpiau y mae Aberystwyth yn draddodiadol wedi ei chael hi'n anodd eu recriwtio.

- Myfyrwyr o ardaloedd lle mae teuluoedd yn debygol o fod heb gefndir blaenorol o addysg uwch. Caiff y rhain eu cydnabod gan HESA fel dangosydd perfformiad cyfranogiad isel cenedlaethol. Mae'r data diweddaraf sydd ar gael gan HESA (ar gyfer Prifysgol Aberystwyth 2015/16) yn dangos bod 12.4% o'n myfyrwyr newydd o gymdogaethau cyfranogiad isel. Bydd gweithgareddau wedi'u targedu at y myfyrwyr hyn yn canolbwyntio ar godi dyheadau a sicrhau gwybodaeth dryloyw i annog ymgeisio i addysg uwch, ynghyd â darparu cefnogaeth ymarferol trwy fwrsariaethau ac ati. Nododd adroddiad WISERD *Mynediad i Addysg Uwch yng Nghymru (2015)* fod myfyrwyr o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru hyd at 7.5% yn llai tebygol o gymryd rhan mewn AU na'r rhai o'r ardaloedd lleiaf difreintiedig.
- Myfyrwyr ag anableddau (mae tua 15% o'n hisraddedigion llawn-amser Cartref / UE yn datgan anabledd). Mae myfyrwyr ag anableddau hefyd yn cael eu cydnabod gan HESA yn ddangosydd perfformiad cyfranogiad isel cenedlaethol. Bydd gweithgareddau a dargedir at y myfyrwyr hyn yn canolbwyntio ar sicrhau mynediad cyfartal a chefnogaeth ymatebol trwy gydol taith y myfyriwr.
- Myfyrwyr Aeddfed (mae tua 12% o'n myfyrwyr wedi'u cofrestru'n aeddfed – sef eu bod yn 21 oed neu'n hŷn ar adeg cyrraedd y Brifysgol). Mae HESA yn cydnabod myfyrwyr aeddfed fel grŵp cyfranogiad isel cenedlaethol. Efallai bod gan y myfyrwyr hyn anghenion cymorth penodol ar ôl bod allan o addysg, wedi cyrraedd drwy lwybrau anhraddodiadol, neu fod ganddynt gyfrifoldebau gofal ychwanegol.
- Myfyrwyr o deuluoedd incwm is sy'n gymwys ar gyfer ein bwrsariaethau prawf modd (mae tua 40% o'n myfyrwyr newydd yn gymwys). Fel y nodwyd uchod, mae myfyrwyr o deuluoedd incwm is yn llai tebygol o fynd i Addysg Uwch.
- Myfyrwyr o gefndir gofal neu wedi ymddieithrio oddi wrth eu teulu, a Gofalwyr sy'n Oedolion Ifanc (mae'r myfyrwyr hyn yn ffurfio nifer fechan o'n carfan myfyrwyr, ond mae ganddynt anghenion penodol gan nad oes ganddynt y gefnogaeth y mae'r rhan fwyaf o'n myfyrwyr yn ei chael gan deulu). Yn ôl adroddiad gan UCAS yn 2014, dim ond 6% o'r rheiny sy'n gadael gofal sy'n mynd i Addysg Uwch (o'i gymharu â 40% o'r boblogaeth gyffredinol). Mae UCAS yn nodi bod diffyg gwybodaeth am y gefnogaeth sydd ar gael yn rhwystr i fynediad. Rydym yn gweithio'n galed trwy ein Canolfan Ehangu Cyfranogiad a Chynhwysiant Cymdeithasol i sicrhau eu bod yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i gyflawni eu potensial.

- Myfyrwyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig (tua 5.7% o'n myfyrwyr llawn-amser Cartref/UE).
- Myfyrwyr cyfrwng Cymraeg (mae tua 10.3% o'n myfyrwyr llawn-amser Cartref/UE yn datgan eu bod yn 'rhugl'.) Rhan o'n gwaith trwy'r Cynllun Mynediad a Ffioedd ar gyfer 2019/20 yw cynyddu nifer y myfyrwyr rhugl sy'n gwneud rhyw ffurf o'u hastudiaethau trwy gyfrwng Cymraeg, yn ogystal â myfyrwyr sydd â Chymraeg da ond sydd heb hyder i'w defnyddio yn academiaidd ac yn broffesiynol.
- Rydym hefyd yn cydnabod y gefnogaeth ychwanegol sydd ei hangen ar fyfyrwyr sydd â chymwysterau anhraddodiadol a myfyrwyr sy'n dechrau ar raglenni Blwyddyn 0. Gyda'r gefnogaeth gywir, gall y myfyrwyr hyn wneud cynnydd da ac mae llawer o'n Cynllun Mynediad a Ffioedd yn anelu at ddarparu cyfleoedd i fyfyrwyr gyrraedd eu potensial llawn.

Mae buddsoddiadau'r Cynllun Ffioedd yn cefnogi'r myfyrwyr hyn mewn dwy ffordd:

- Drwy weithgareddau wedi'u targedu at grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch gyda'r bwriad o ehangu mynediad a gwella cyfraddau cadw.
- Trwy weithgareddau sydd ar gael i bob myfyriwr ond lle rhoddir sylw ychwanegol i anghenion penodol y myfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i sicrhau bod yr holl rwystrau posibl i fynediad yn cael eu dileu a lle mae'r buddion posibl i fyfyrwyr sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch yn cael eu pwysleisio. Mae rhai gweithgareddau hefyd ar gael i bob myfyriwr, ond bod myfyrwyr sydd angen cymorth ychwanegol yn fwy tebygol o'u mynychu/defnyddio (e.e. gweithgareddau ein Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr).

Amcanion a Darpariaeth**A) Mesurau i gynorthwyo unigolion heb gynrychiolaeth ddigonol mewn Addysg Uwch a sicrhau Cydraddoldeb Cyfle**

1) Hyrwyddo a diogelu mynediad teg at addysg uwch, yn cynnwys adnabod unigolion o gefndiroedd dan anfantais sydd â'r potensial mwyaf.

Prifysgol Haf Aberystwyth

Caiff incwm ffioedd ei ddefnyddio i roi cymorth i'n Prifysgol Haf, rhaglen sydd â hanes llwyddiannus o godi dyheadau a hyder ymhlith myfyrwyr nad oes ganddynt hanes teuluol o fynychu Addysg Uwch ac annog y myfyrwyr hynny i ymgeisio i fynd i Addysg Uwch. Cynigir y Brifysgol Haf i hyd at 80 o fyfyrwyr o grwpiau neu gymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn Addysg Uwch ac mae'n cynnig sicrwydd o lwybr i Addysg Uwch i'r rheiny sy'n llwyddo yn y cwrs, yn amodol ar fodloni'r gofynion derbyn cyffredinol.

Mae'r Brifysgol Haf hefyd yn cyfrannu at gyflogadwyedd y mentoriaid myfyrwyr sydd ar y rhaglen. Ein targed yw sicrhau ein bod yn olrhain 90% o gyfranogwyr Prifysgol Haf am flwyddyn i olrhain cynnydd i addysg lefel uwch.

Gweithgareddau i godi dyheadau

Bydd incwm ffioedd yn cefnogi ein Canolfan Ehangu Cyfranogiad a Chynhwysiant Cymdeithasol yn ei gwaith mewn ysgolion ac yn y gymuned ehangach, gan weithio mewn partneriaeth gydag ysgolion a cholegau ac Ymgyrhaedd yn Ehangach i ddatblygu dyheadau academiaidd a chyflawniad plant a phobl ifanc. Mae'r gweithgareddau hyn wedi'u targedu at bobl ifanc sydd mewn perygl o gyflawniad isel ac maent yn cyfrannu at godi dyheadau myfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch, gan annog plant i ystyried addysg uwch fel dewis posibl.

2) Denu a chadw myfyrwyr a darpar fyfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, a allai gynnwys myfyrwyr o gefndiroedd llai breintiedig a myfyrwyr â nodweddion gwarchoddedig.

Bwrsariaethau Aber

Mae ein rhaglen bwrsariaethau a gwobrau wedi'i thargedu i gefnogi ehangu mynediad a llwyddiant myfyrwyr i sicrhau, cyn belled ag y bo'n bosibl, gydraddoldeb cyfle i bob darpar fyfyrwr. Byddwn yn parhau i gynnig pecyn cymorth eang, gan adolygu'r nifer sy'n manteisio ar fwrsariaethau i sicrhau bod hyn yn ymateb i anghenion myfyrwyr. Gan ddibynnu ar broffil ein corff myfyrwyr a newidiadau posibl yn y cymorth i fyfyrwyr wedi'i ariannu gan y llywodraeth o fewn y Deyrnas Unedig, rydym yn rhagweld y bydd rhwng 20% a 50% o'n hisraddedigion llawn amser Cartref/UE yn cael cymorth bwrsariaeth sydd â phrawf modd fel rhan o becyn cyffredinol wedi'i dargedu i fynd i'r afael â'r risg o fyfyrwyr o ardaloedd incwm isel neu ardaloedd â chyfranogiad isel yn peidio â pharhau. Fodd bynnag, byddwn hefyd yn adolygu ein darpariaeth bwrsariaethau yn rheolaidd i sicrhau bod bwrsariaethau'n cael eu cynnig i'r myfyrwyr hynny sydd fwyaf agored i galedi yn ystod eu hastudiaethau a'u hasesu ar sail angen ac a yw myfyrwyr yn gallu cael gafael ar lefelau gwahaniaethol o gymorth cynnal gan awdurdodaeth ddatganoledig neu ffynonellau awdurdodau lleol.

Cymorth i ymadawyr gofal

Drwy'r Ganolfan Ehangu Cyfranogiad a Chynhwysiant Cymdeithasol, sydd wedi'i chyllido drwy'r Cynllun Mynediad a Ffioedd, byddwn yn sicrhau bod myfyrwyr o gefndir gofal, myfyrwyr sydd wedi ymddieithrio o'u teuluoedd neu fyfyrwyr sy'n ofalwyr ifanc yn gallu cael gafael ar gymorth cyn ymgeisio (gyda chymorth mewn Diwrnodau Agored a Diwrnodau Ymweld yn ogystal â chymorth teithio a llety, a chymorth drwy'r broses ymgeisio). Wrth ddechrau yn y Brifysgol byddant yn cael cymorth gan bobl benodol sy'n helpu myfyrwyr i ymgartrefu yn ogystal â chymorth parhaus drwy eu gyrfa prifysgol. Mae ein bwrsariaethau Gadael Gofal yn cynnig cymorth ariannol i leddfu'r pwysau ar fyfyrwyr nad oes ganddynt yn aml ffynonellau cymorth eraill.

3) Codi dyheadau addysgol a datblygu sgiliau i baratoi myfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ar gyfer addysg uwch.

Sgyrsiau Ysgolion Aber mewn ardaloedd dan anfantais

Mae ein staff Cyswllt Ysgolion yn gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion i roi sgyrsiau a chynnal gweithdai i fyfyrwyr, athrawon ac ymgynghorwyr ar amrywiaeth o bynciau'n gysylltiedig â phrifysgol, er mwyn sicrhau bod myfyrwyr o bob cefndir yn gallu manteisio ar yr wybodaeth a'r offer sydd eu hangen arnynt i wneud y dewisiadau cywir am Addysg Uwch, gan geisio ymgysylltu yn benodol â myfyrwyr sydd y cyntaf yn eu teulu i fynd i'r Brifysgol neu, am ryw reswm arall, nad oes ganddynt yr un cyfalaf cymdeithasol â'u cyd-ddisgyblion. Mae'r tîm yn gweithio i helpu myfyrwyr i ddeall proses UCAS a llywio drwy'r daith gymhleth o ddewis ac ymgeisio i brifysgolion, gan gynnig cyngor ar ffynonellau cyllid a helpu i ddrafftio datganiadau personol. Mae sesiynau ffug gyfweiliadau'n helpu myfyrwyr i feithrin eu hyder ac mae sgyrsiau ar reoli arian yn helpu i chwalo rhwystrau ariannol. Y nod yw sicrhau nad oes unrhyw fyfyrwr dan anfantais ar y cam ymgeisio oherwydd ddiffyg mynediad at wybodaeth neu gymorth. Mae ymgeiswyr yn derbyn esboniad am Dderbyniadau wedi'u Targedu, sef rhoi cynigion is i fyfyrwyr o Ysgolion Llwybr yng Nghymru ac o'r 40% ysgol isaf sy'n perfformio waethaf yng ngweddill y DU.

Diwrnodau Cyfoethogi Aber

Mae ein Tîm Cyswllt Ysgolion hefyd yn datblygu ymhellach weithgareddau cymorth sy'n seiliedig ar bwnc, gyda'n Diwrnodau Cyfoethogi dan arweiniad ysgolheigion. Mae'r diwrnodau hyn ar sail thema yn rhoi modd i fyfyrwyr fanteisio ar sgyrsiau sy'n cyfoethogi'r cwricwlwm gan athrawon y Brifysgol. Bydd y Diwrnodau wedi'u targedu'n bennaf at ganolfannau trefol ac yn tynnu ar groestoriad o ysgolion gan gynnwys disgyblion o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Roedd y rhaglen Diwrnod Cyfoethogi wedi bod yn llwyddiant yn 16/17 ac 17/18, a bydd yn parhau i gael ei gyflwyno a'i wella er mwyn sicrhau mwy o effeithiolrwydd, er y caiff ei adolygu'n rheolaidd hefyd wrth i faes llafur ysgolion newid.

Ymweliadau i'r campws a'r Brifysgol Ddeuddydd

Mae'r Tîm Cyswllt Ysgolion yn cynnal ymweliadau i'r campws ar gyfer ysgolion a grwpiau colegau drwy gydol y flwyddyn academaidd. Caiff dysgwyr y cyfle i gymryd rhan mewn rhaglenni dydd neu breswyl *Blas ar Fywyd Prifysgol*. Bydd y Brifysgol Ddeuddydd, sy'n

gwrs preswyl drwy gyfrwng y Gymraeg, yn rhedeg ym mis Medi 2017 ac adolygir llwyddiant hwn ar gyfer datblygiad pellach.

Hyb Sgiliau Aber

Byddwn yn parhau i ddatblygu a chynnal Hyb Sgiliau Astudio ar-lein, sydd wedi'i ddatblygu drwy ffrwd yn y Cynllun Llwyddiant Myfyrwyr. Mae'r Hyb yn cynnig mynediad i fyfyrwyr at amrywiaeth o wybodaeth datblygu sgiliau cyn cyrraedd y Brifysgol a thrwy gydol eu blwyddyn gyntaf (ysgrifennu traethawd, sgiliau cyflwyno, cyfeirnod i ati). Y nod yw helpu myfyrwyr i baratoi ar gyfer llwyddo. Caiff cyswllt â'r Hyb ei annog drwy amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu â myfyrwyr, gan gynnwys Gwybodaeth Wythnos Groeso, cyngor y Gwasanaethau Gwybodaeth, llawlyfrau a chyngor gan yr Adrannau a system tiwtor personol. Mae'r Hyb yn cynnal hyfforddiant ac yn rhoi cefnogaeth ar sut i osgoi Ymarfer Academaidd Annheg a Llên-ladrad.

Yn benodol, bydd yr Hyb yn helpu i fynd i'r afael â'r broblem pan nad yw myfyrwyr yn dymuno gofyn am help gyda sgiliau oherwydd stigma ac embaras. Caiff defnydd o'r Hyb Sgiliau ei fonitro drwy ystadegau a ddarperir gan dimau System Rheoli Cynnwys a Blackboard AberDysgu. Mae Hyb Sgiliau Aber yn benodol yn mynd i'r afael ag anghenion y myfyrwyr hynny o gymdogaethau cyfranogiad isel neu sydd y cyntaf o'u teulu i fynd i'r Brifysgol, yn ogystal â darparu cymorth ychwanegol i'r myfyrwyr hynny a ddaeth i'r brifysgol ar dariff isel ac/neu gyda chymhwyster anhraddodiadol ac a allai fod angen help i wella eu perfformiad.

- 4) *Cefnogi a chynyddu cyfraddau cadw myfyrwyr a myfyrwyr sy'n cwblhau, yn enwedig pobl o gymdogaethau â chyfranogiad isel, plant sy'n derbyn gofal, ymadawyr gofal a gofalwyr*

Cronfa Caledi Myfyrwyr Aber

I ategu ein gweithgareddau ehangu mynediad, gan gynnwys bwrsariaethau prawf modd/incwm, sydd â'r nod o sicrhau cydraddoldeb cyfle drwy chwalu'r rhwystrau mynediad sy'n wynebu myfyrwyr o gefndiroedd incwm is, rydym ni'n ymrwmo i ddarparu cymorth i'r rheini sy'n cael anawsterau ariannol yn ystod eu cyfnod yn y Brifysgol. I'r perwyl hwn, byddwn yn darparu cronfa caledi er mwyn cynnig cymorth i fyfyrwyr sydd angen grantiau cynnal bychain, gyda'r nod o leihau'r nifer sy'n gadael oherwydd pwysau ariannol.

Defnyddir y Gronfa Caledi hefyd i helpu gyda chostau cyrsiau ychwanegol dewisol, ac i gael help gyda chostau wrth drefnu lleoliadau gwaith (mynychu cyfweiliadau).

Mesurau Dadansoddi Dysgu a Monitro Presenoldeb i wella cyfraddau Cadw a Dilyniant

Mae gwneud y mwyaf o botensial myfyrwyr yn golygu gwella cefnogi cyfraddau cadw trwy sicrhau profiad academaidd boddhaol ac mae'r fenter Monitro Presenoldeb am wella canlyniadau, dilyniant, cadw a bodlonrwydd myfyrwyr trwy ddarparu cefnogaeth wedi'i thargedu'n well i fyfyrwyr a chodi ymwybyddiaeth o lefelau ymgysylltu. Mae'r gweithgarwch yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Gwell gwybodaeth am gyrhaeddiad, presenoldeb ac ymgysylltu i helpu Tiwtoriaid Personol i gefnogi myfyrwyr. Caiff hyn ei gyfleu trwy Dangosfwrdd Tiwtor Personol Myfyrwyr sy'n cael ei wella'n flynyddol (wedi'i bweru trwy ALADdin).
- Gwell dadansoddi ar ddysgu, ac yn gyson yn gwella camau dilynol, ar gyfer myfyrwyr er mwyn eu grymuso i gyrraedd eu potensial.
- Gwella data i helpu i nodi myfyrwyr sydd mewn perygl o beidio ag ymgysylltu ac o dynnu'n ôl er mwyn gallu cynnig cymorth ychwanegol.

Sonnir yn llawnach am y gwaith ar y ddau faes cyntaf yn nes ymlaen yn yr adran Hyrwyddo Addysg Uwch yn y cynllun hwn, gan fod gweithredu a datblygiad parhaus y systemau hyn yn cefnogi pob myfyriwr i gyflawni ei botensial gorau. Fodd bynnag, mae myfyrwyr Ehangu Mynediad yn arbennig o dueddol o adael a thynnu'n ôl, ac fel rhan o'r prosiect dadansoddi dysgu, rydym yn buddsoddi mewn gweithgareddau i wella ar gadw'r myfyrwyr hyn trwy fonitro presenoldeb a defnyddio mesurau eraill o ymgysylltu â myfyrwyr (gan gynnwys defnyddio offer dysgu ar-lein, pa ddarlithoedd wedi'u recordio y maent wedi edrych arnynt ac ystadegau llyfrgelloedd) i nodi lle gallai myfyrwyr fod mewn perygl tebygol o dynnu'n ôl ac i alluogi adrannau i gynnig cymorth ychwanegol trwy'r system tiwtor personol. Ymhlith y myfyrwyr a nodwyd sydd â'r risg uchaf o dynnu'n ôl mae llawer o'r rheiny y gwelwyd nad ydynt wedi'u cynrychioli'n ddigonol mewn Addysg Uwch (myfyrwyr o deuluoedd incwm isel, myfyrwyr sy'n dechrau gyda phwyntiau tariff isel, myfyrwyr o gymdogaethau cyfranogiad isel ac ati).

Gall metrigau presenoldeb, a welir yn y Dangosfwrdd Tiwtor Personol Myfyrwyr (ALADdin), hefyd helpu i sylwi ar amseroedd o'r flwyddyn pan fo myfyrwyr dan fwy o bwysau a'n cynorthwyo i ymateb trwy newidiadau i'n prosesau neu amserlenni. Y bwriad yw cael cyfres lawn o fesurau dadansoddi dysgu a chyflawniad i fod ar gael drwy'r Dangosfwrdd.

5) Gwella profiad addysg uwch myfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gynnwys gweithgareddau i hyrwyddo profiad rhyngwladol

Gwella'r ystadau

Mae manau croesawgar, hygyrch yn holl bwysig i hyrwyddo llwyddiant myfyrwyr o grwpiau nad oes ganddynt gynrychiolaeth ddigonol. Bydd hyn yn cynnwys darparu manau astudio mwy anffurfiol (gan adeiladu ar y Felin Drafod [*think tank*] hynod lwyddiannus yn Nhŵr Llandinam a'r trawsnewid a wnaed gennym ar lawr gwaelod Llyfrgell Hugh Owen yn ystod 2017/18) er mwyn annog gwaith grŵp a dysgu

cydweithredol, yn ogystal â gwelliannau i'r manau dysgu ac yn y llyfrgell, er mwyn ceisio sicrhau bod y manau hyn yn groesawgar ac yn gyfforddus i astudio ynddynt.

Rydym hefyd wedi ymrwmo i barhau i wella mynediad i'n hystad ar gyfer myfyrwyr, staff ac ymwelwyr ac i sicrhau nad yw ein myfyrwyr yn dod ar draws unrhyw rwystrau corfforol rhag cael mynediad i addysg. Mae ein gwaith ystadau yn cefnogi cwricwlwm cynhwysol, gan gynnwys recordio darlithoedd yn rheolaidd a dolenni clyw, gan alluogi myfyrwyr sydd ag ystod eang o anghenion corfforol a dysgu i gael mynediad at eu deunyddiau astudio pryd bynnag a sut bynnag sy'n gweddu orau i'w hanghenion penodol. Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn seilwaith hygyrchedd i gynorthwyo â hyn.

Cymorth Blwyddyn mewn Diwydiant a Lleoliadau Rhyngwladol

Mae myfyrwyr yn elwa'n fawr o flwyddyn integredig dramor neu flwyddyn mewn diwydiant. Mae myfyrwyr a chyflogwyr yn gwerthfawrogi'r sgiliau a'r hyder y mae myfyrwyr yn eu hennill o'r profiadau hyn, a hynny'n bwydo'n ôl i'w perfformiad dros weddill eu blynyddoedd yn astudio. O 2018/19 rydym yn disgwyl rhagor o fyfyrwyr i ddechrau gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant, yn sgil datblygu nifer o gyrsiau integredig ar gyfer mynediad o 2017 ymlaen; erbyn 2019/20 bydd nifer sylweddol o fyfyrwyr allan ar leoliad.

Fel rhan o ffrwd cyflogadwyedd y Strategaeth Dysgu ac Addysgu rydym yn datblygu ffyrdd newydd o gefnogi Blynyddoedd Allan Integredig, gyda'r nod o sicrhau cynnydd yn nifer y myfyrwyr sy'n elwa o'r profiad blwyddyn allan integredig. Mae'r gwaith hwn yn arbennig o ddefnyddiol i fyfyrwyr o gefndiroedd incwm is neu o gefndiroedd yng ngrwpiau is dosbarthiadau economaidd-gymdeithasol Ystadegau Gwladol, oherwydd efallai na chawsant erioed eu hannog i ystyried teithio ledled y byd fel cyfle; neu'n methu elw o gysylltiadau, neu'r hyder, i ddod o hyd i leoliadau gwaith yn anffurfiol. Unwaith eto, mae'r trothwyon cyfyngu hyn yn rhai yr ydym ni, fel prifysgol, yn dymuno i'n myfyrwyr eu croesi ac rydym wedi ymrwmo i'w helpu er mwyn iddynt fedru cyflawni eu potensial. Nid yw'r holl drothwyon hyn yn gorfforol. Mae cefnogaeth bwrpasol ar gael i fyfyrwyr sy'n ystyried cymryd lleoliad cyfnewid Erasmus, gyda darpariaeth cymorth un i un.

Yn dibynnu ar argaeledd cyllid a gofynion a grëir gan niferoedd myfyrwyr, sefydlir uned bwrpasol ar gyfer lleoliadau, a bydd ganddo gysylltiadau cryf â'r Gwasanaeth Gyrfaoedd.

6) Darparu gwybodaeth effeithiol i fyfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol cyn ac yn ystod eu cyrsiau.

Gwybodaeth a chyngor cynhwysfawr i fyfyrwyr

Yn ogystal â'r cyngor a'r arweiniad cynhwysfawr cyn dod i'r brifysgol a geir drwy ein Swyddfa Cyswllt Ysgolion a'n Canolfan Ehangu Cyfranogiad a Chynhwysiant Cymdeithasol, byddwn yn sicrhau bod gwybodaeth a ddarperir drwy'r cyfryngau canlynol yn glir ac yn rhwydd cael gafael arni:

- Ceir manylion ein holl gyrsiau ar ein gwefan (aber.ac.uk), gan ddangos cynnwys y rhaglen, y dull cyflenwi a'r sgiliau a ddysgir. Rydym wrthi'n

barhaus yn gwella ein gwefan i sicrhau ei bod mor rhwydd ei defnyddio â phosibl a bod yr wybodaeth sydd ar gael yn gyfredol a chlr.

- Caiff gwybodaeth am unrhyw gostau ychwanegol (megis cyrsiau maes, ymweliadau â theatrau, orielau ac amgueddfeydd ac ati) nad ydynt wedi'u cynnwys yn y ffi prifysgol gyffredinol eu datgan ar wefan y Brifysgol <https://www.aber.ac.uk/cy/student-finance/undergraduate-uk/additional-fees/> a byddwn yn parhau â'n polisi o sicrhau bod opsiwn cost isel neu ddi-ddâl ar gael i fyfyrwyr ar gyfer unrhyw daith maes sy'n elfen orfodol o'r cwrs. Yn dibynnu a oes adnoddau ar gael, byddwn yn treialu dulliau o ddarparu mwy o gymorth yn ymwneud â ffioedd ychwanegol, ac mae'r Brifysgol yn gweithio i ostwng taliadau ychwanegol ble bynnag y bo modd.
- Caiff manylion am y cymorth ariannol sydd ar gael eu dosbarthu mewn digwyddiadau cyswllt (diwrnodau agored ac ymweld, ffeiriau AU, digwyddiadau diwylliannol cenedlaethol, digwyddiadau cyswllt ysgolion ac ati). Bydd ymgyrch e-bost hefyd yn tynnu sylw at y ddarpariaeth sydd ar gael yn Aberystwyth.

Rhoddir gwybod am unrhyw newidiadau ar ein gwefan yn unol â chanllawiau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnata (CMA).

7) *Darparu cymorth lles ac academaidd o safon uchel i fyfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol*

Cymorth Myfyrwyr

Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr i sicrhau bod yr holl fyfyrwyr yn gallu cael gafael ar gyngor a chymorth, yn enwedig yn ystod wythnosau cyntaf bywyd myfyrwyr. Caiff y gwasanaethau sydd ar gael gan y Gwasanaethau Cymorth Myfyrwyr eu hysbysebu drwy sgysiau â myfyrwyr newydd, presenoldeb mewn diwrnodau agored, Ffair y Glas, llawlyfrau myfyrwyr ac mewn amrywiol ddigwyddiadau ar y campws. Mae ein gwasanaethau cymorth yn canolbwyntio ar gefnogi rhagoriaeth academaidd ar yr un pryd â hybu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol, er mwyn i'n myfyrwyr adael y brifysgol gyda set o sgiliau a galluoedd sy'n addas i'w bywyd ar ôl graddio. Mae'r gwasanaethau cymorth myfyrwyr hefyd yn cynnwys cymorth **lechydd Meddwl** penodol.

Ymgyfarwyddo i fyfyrwyr sydd ag Asperger/awtistiaeth

Byddwn yn parhau i gefnogi'r digwyddiad ymgyfarwyddo deuddydd i ddarparu fyfyrwyr sydd ag Asperger/awtistiaeth a'u teuluoedd, er mwyn cynorthwyo â phontio'n rhwydd i fywyd prifysgol. Mae hyn yn rhan o'n gwaith i sicrhau cydraddoldeb cyfle i fyfyrwyr sydd ag anghenion cymorth penodol a chymhleth yn aml i sicrhau eu bod yn dal i allu dangos eu gallu a chyflawni eu potensial.

Mentora Aber

Cafodd y cymorth mentora ei adolygu ar gyfer 2018/19, gyda chynlluniau newydd ar gyfer cymorth mentora gwell o 2018/19 er mwyn sicrhau ein bod wedi nodi'r ffordd orau i gefnogi anghenion newidiol myfyrwyr ac i sicrhau cysondeb yn y ddarpariaeth. Ar adeg ysgrifennu'r cynllun hwn (Mawrth 2018), rydym yn bwriadu parhau â'r gweithgarwch hwn i 2019/20, ond byddwn yn diweddarau pan ddaw canlyniadau'r adolygiad i law. Byddwn

yn adolygu anghenion penodol ôl-raddedigion, myfyrwyr rhyngwladol a myfyrwyr cyfrwng-Cymraeg, yn ogystal â'r cydgysylltiad rhwng y cynllun Arwyddbost canolog (sy'n rhoi cefnogaeth i'r rheiny sy'n gadael gofal a myfyrwyr eraill sydd angen cymorth wrth bontio i'r brifysgol) a'r gefnogaeth fentora arbenigol i ddysgwyr sydd ag anabledau neu sydd â gwahaniaethau dysgu penodol, a'r rhaglenni mentora mewn adrannau.

Cymorth Ariannol

Byddwn yn buddsoddi mewn cymorth ariannol drwy'r tîm Cyngor, Gwybodaeth a Chyllid sy'n gweinyddu cronfa Caledi Myfyrwyr y Brifysgol ac yn rhoi ystod o gyngor a gwybodaeth i fyfyrwyr drwy sesiynau cynghori 'galw heibio' a thros y ffôn ac e-bost. Gall hyn gynnwys rhoi mynediad i raglen arbenigol, Blackbullion.

Grant Undeb Myfyrwyr Aber

Yn ogystal â'r gwasanaethau cymorth a gynigir drwy'r Brifysgol, gall myfyrwyr gael cymorth drwy Undeb y Myfyrwyr, gan gynnwys y Gwasanaeth Cynghori llinell flaen, gwasanaeth 'Nawdd Nos' sy'n rhoi cyngor i gydfyfyrwyr, a chymorth academiaidd drwy gefnogaeth dros 300 o gynrychiolwyr cwrs ac adran.

Byddwn yn gweithio i sicrhau ein bod yn dilyn arfer gorau a chanllawiau CCAUC wrth gyllido Undeb y Myfyrwyr i sicrhau ei fod yn gallu cynorthwyo myfyrwyr a chyfrannu'n effeithiol at ddatblygu profiad myfyriwr rhagorol yn Aberystwyth.

Hyrwyddwyr Cydraddoldeb Aber

Yn ogystal â gweithgareddau sy'n cael cefnogaeth drwy'r cynllun hwn i gefnogi cydraddoldeb cyfle, rydym hefyd yn cydnabod yr angen i ymgorffori cydraddoldeb ar draws ein holl weithgareddau ac annog diwylliant sy'n cydnabod anghenion yr holl staff a myfyrwyr a bod modd dileu unrhyw rwystrau a rhagfarnau (boed yn ymwybodol neu'n anymwybodol). Mae rhan o'n gwaith i sicrhau cyfle cyfartal yn ddiwylliannol. Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'n Cynlluniau Gweithredu Cydraddoldeb yn rhedeg hyd at 2020 ac yn egluro ein gwaith i sicrhau a hyrwyddo amgylchedd cynhwysol, gan roi gwerth ar amrywiaeth ein staff, myfyrwyr a chymuned.

Byddwn yn cefnogi'r gwaith hwn drwy fuddsoddi yn ein darpariaeth cydraddoldeb, gan gynnwys y rhwydwaith o Hyrwyddwyr Cydraddoldeb ar draws y Brifysgol, mewn digwyddiadau hyfforddi staff a gwell casglu ar ddata a chydweithio'n agos gydag Undeb y Myfyrwyr i sicrhau ein bod yn gallu darparu gwybodaeth a chymorth priodol i fyfyrwyr sydd â nodweddion gwarchodedig. Byddwn wrthi'n gyson yn archwilio ein prosesau i nodi a dileu unrhyw feysydd o wahaniaethu anuniongyrchol a sicrhau bod Campws Prifysgol Aberystwyth yn lle diogel i bawb.

8) *Cefnogi myfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i fynd yn eu blaenau i gyflogaeth neu astudio pellach*

GyrfaoeddAber, AberYmlaen, GwaithAber a TrywyddGyrfa: gweithgarwch Gyrfaoedd a grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol

Mae ein hamrywiol weithgareddau cymorth Gyrfaoedd ar gael i bawb ac yn cael eu disgrifio'n llawn yn yr adran Hyrwyddo Addysg Uwch isod, ond ceir manteision penodol i fyfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a chaiff ein blaenoriaeth cydraddoldeb cyfle ei chefnogi drwy fod ein staff gyrfaoedd yn adnabod anghenion penodol grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ac yn sicrhau bod y ddarpariaeth a gynigir yn ymateb i'r rhain:

- cynnig gwasanaethau cyngor ac arweiniad pwrpasol mewn cydweithrediad â Chymorth Myfyrwyr gan ystyried y ffaith y bydd gan fyfyrwyr sydd â chyfalaf cymdeithasol isel anghenion penodol, gan gynnwys materion yn ymwneud â hyder a mynediad at wybodaeth, a bod yn rhaid diwallu'r anghenion hyn er mwyn iddynt allu manteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael iddynt
- cyfleoedd profiad gwaith GwaithAber i leddfu pwysau ariannol
- lleoliadau AberYmlaen i'r rheini heb brofiad gwaith perthnasol blaenorol
- ymrwymiad i wella'r broses tiwtor personol i wella datblygiad personol ymhellach a chydabod sgiliau trosglwyddadwy

Mae'r fenter olrhain parodrwydd myfyrwyr ar gyfer cyflogaeth, sef TrywyddGyrfa yn cyfrannu at gydraddoldeb cyfle trwy ein galluogi i ganolbwyntio ymyriadau cyflogadwyedd ar y myfyrwyr hynny nad oes ganddynt y cyfleoedd a'r strwythurau cymorth sydd gan lawer o'u cyfoedion. Mae'r data a gesglir trwy TrywyddGyrfa yn cael ei ddadansoddi i'n helpu i nodi ffyrdd o wella ein cyngor ar yrfaoedd i fyfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Yn ystod 2019/20 bydd y broses hon wedi aeddfedu a disgwylw'n i ymyriadau newydd ddod i'r amlwg o'n Gwasanaeth Gyrfaoedd a'n system tiwtoriaid personol i ymateb i'r data hwn.

O 2018/19 rydym yn disgwyl nifer uwch o fyfyrwyr i fod ar raglenni sy'n cynnwys blwyddyn integredig mewn Diwydiant. Drwy ddatblygu rhagor o raglenni pedair blynedd sy'n cynnwys Blwyddyn integredig mewn Diwydiant ein bwriad yw annog rhagor o fyfyrwyr na fyddent efallai'n ystyried Blwyddyn mewn Diwydiant i elwa ohono. Unwaith eto, problem trothwy yw hon – efallai nad oes gan fyfyrwyr â chyfalaf cymdeithasol isel yr hyder i ddewis blwyddyn mewn diwydiant na'r sgiliau i sicrhau lleoliad gwaith. Drwy ddarparu cyngor a chymorth gallwn helpu'r myfyrwyr hyn i lwyddo.

Trwy raglen GO Wales: Cyflawni, rydym yn gweithio gyda chyflogwyr ledled Cymru i greu cyfleoedd profiad gwaith hyblyg wedi'u teilwra i fyfyrwyr, gan gynnwys cysgodi yn y gwaith, rhagflas o brofiad gwaith a lleoliadau gwaith. Mae'r rhaglen wedi'i thargedu at fyfyrwyr sydd ag anabledd neu gyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio, myfyrwyr o gefndir BME, myfyrwyr o gefndir gofal, myfyrwyr sydd â chyfrifoldebau gofalu a'r rheini o gymdogaethau sydd â chyfranogiad isel mewn AU. Yn ogystal â helpu i ddod o hyd i gyfleoedd, rydym yn rhoi hyfforddiant ac yn mentora i baratoi myfyrwyr at eu profiadau gwaith ac i fagu hyder.

9) Cyfrannu at bartneriaethau Ymgynghraedd yn Ehangach.

Amlinellir cyfraniad y Brifysgol at waith Ymgynghraedd yn Ehangach yn Adran 3.3 uchod (tudalen 32).

10) Mesurau eraill i gefnogi grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch.

Cefnogaeth i'r ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg

Trwy fuddsoddi yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg byddwn yn ceisio diogelu'r ddarpariaeth sydd eisoes ar gael a hefyd datblygu modiwlau pellach er mwyn gallu darparu ystod mor eang â phosibl o feysydd pwnc trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn benodol, byddwn yn parhau i weithio i wella'r ddarpariaeth drwy'r Gymraeg sydd ar gael mewn pynciau STEM.

Mae ein Cynllun Cyfannol Strategol i'r Gymraeg (a gymeradwywyd yn 2015) yn alinio â ffrwd benodol iawn yn ein Cynllun Strategol newydd, ond mae'n rhedeg yn gyfochrog ac wedi'i alinio'n agos â'r Strategaeth Dysgu ac Addysgu. Gellir gweld y Cynllun Cyfannol Strategol yn:

<https://www.aber.ac.uk/cy/media/departmental/cwls/pdfs/CynllunCyfannolStrategoli'rGymraeg.pdf>

Yn ogystal â'n buddsoddiadau ein hunain, rydym yn cydnabod gwaith gwerthfawr gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a byddwn yn gwneud y defnydd gorau o'r cyfleoedd a gyflwynir gan y Coleg, gan gynnwys cyfleoedd buddsoddi wedi'u hariannu gan y Coleg ar gyfer darpariaeth a staff newydd, ysgoloriaethau doethuriaeth a chymorth ar gyfer annog myfyrwyr i wneud y Dystysgrif Sgiliau Iaith y tu hwnt i'r myfyrwyr hynny a gyllidir drwy'r Coleg.

Fel rhan o'n cynigion ysgoloriaeth, o 2018/19, byddwn yn rhoi ysgoloriaethau i fyfyrwyr sy'n astudio nifer benodol o greydau trwy gyfrwng y Gymraeg.

B) Mesurau i Hyrwyddo Addysg Uwch

1) Ymgysylltu'n fwy effeithiol â chymunedau a chyrff preifat, cyhoeddus neu wirfoddol yng Nghymru

Gweithio i gysylltu'n agosach â chyrff cyhoeddus a gwirfoddol

Mae'r Brifysgol yn ymfalchïo bod ganddi gysylltiadau agos gydag amrywiaeth o gyrff cyhoeddus gan gynnwys (yn lleol) Cyngor ar Bopeth, Ambiwllans Sant Ioan, Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru, yn ogystal â llawer o gyrff cenedlaethol. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Sir Ceredigion ar amrywiaeth eang o fentrau. Byddwn yn cydweithio'n agos â chyrff megis Clybiau Ffermwyr Ifanc, yr Undeb Rygbi a'r clwb pêl-droed lleol, gan nodi ffyrdd y gall y partneriaethau hyn ddarparu cyfleoedd gwirfoddoli ac annog gwell cyfranogiad mewn Addysg Uwch (gyda golwg ar edrych a yw'n bosibl mesur effaith hyn).

Bydd y prosiect sydd wedi'i ariannu gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri i drawsnewid yr Hen Goleg yn rhoi cyfleoedd helaeth i ymgysylltu â'r cyhoedd, gan gynnwys darlithoedd cyhoeddus ac arddangosfeydd wedi'u curadu mewn partneriaeth ag Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn ogystal â gyda sefydliadau lleol a chenedlaethol blaenllaw eraill. Bydd y rhaglen yn yr Hen Goleg yn cynnwys cyfleoedd cyfranogi wedi'u cynnal yn Gymraeg ac yn Saesneg i ysgolion (megis her diwydiant cerddoriaeth ac iaith

Glastonbury Goes Global a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2018 a heriai myfyrwyr ym Mlwyddyn 9 i ystod o dasgau yn ymwneud â threfnu gŵyl gerddoriaeth ryngwladol), myfyrwyr, cyn-fyfyrwyr a phobl leol yn gyffredinol, yn ogystal â chyfleoedd gwirfoddoli mewn ystod o weithgareddau, a bydd yn cynnwys Fforwm Cymunedol i lywio datblygiad y cynlluniau.

Yn ogystal, bydd y Brifysgol yn parhau i fod yn rhan o lu o weithgareddau partneriaeth gydag Ysgolion, gan gynnwys cymryd rhan yn Rhaglen Bagloriaeth Cymru.

Mae'r cydweithio agos rhwng y Brifysgol a'r dref yn cynnig cyfleoedd gwirfoddoli ychwanegol i fyfyrwyr (sy'n helpu wrth feithrin sgiliau) a hefyd yn eu helpu i deimlo'n rhan agosach o'r gymuned y maent yn byw ynddi am dair blynedd neu ragor. Mae'r bartneriaeth agos hon rhwng y dref a'r brifysgol yn cynorthwyo cadw myfyrwyr wrth helpu i greu naws gymunedol ar y campws.

AberPreneurs a gweithio i gysylltu'n agosach â diwydiant

Byddwn yn tynnu ar gysylltiadau helaeth sydd gennym eisoes â diwydiant i adeiladu portffolio priodol o leoliadau gwaith ar gyfer nifer cynyddol ein rhaglenni sydd â blynyddoedd integredig dramor/mewn diwydiant. Mae AberPreneurs yn cynnig ystod o weithgareddau i gefnogi myfyrwyr sydd â diddordeb mewn dechrau eu busnes eu hunain, gan gynnwys cymorth cychwynnol, digwyddiadau menter, mentora, cyngor cyllido, cyfleoedd rhwydweithio a sgysiaau ysbrydoli.

Sgysiaau Aber ag Ysgolion a chyfoethogi pynciau

Yn ogystal â gwaith i sicrhau bod myfyrwyr o bob cefndir yn gallu cael gafael ar yr wybodaeth a'r offer sydd eu hangen arnynt i wneud y dewisiadau cywir ynghylch addysg uwch, mae ein Tîm Cyswllt Ysgolion yn parhau i weithio gydag ysgolion ar draws y Deyrnas Unedig i ddarparu gwaith sy'n cyfoethogi'r cwricwlwm ac i gynorthwyo mynediad at academyddion er mwyn helpu i ennyn diddordeb academiaidd a brwdfrydedd dros eu pwnc ymhlith myfyrwyr Safon Uwch. Mae **Diwrnodau Cyfoethogi Aber** sy'n seiliedig ar bynciau Safon Uwch (sonnir amdanynt uchod yn yr adran Cydraddoldeb Cyfle) yn cynnig mynediad at sgysiaau sy'n cyfoethogi'r cwricwlwm gan athrawon Prifysgol. Trwy'r gweithgareddau hyn, bydd ein Tîm Cyswllt Ysgolion ac academyddion yn gweithio i helpu'r ystod ehangaf o fyfyrwyr i wneud y newid o Safon Uwch i Brifysgol.

2) *Buddsoddiadau i wella ansawdd y dysgu ac addysgu, gan gyfeirio at ansawdd profiad y myfyrwr.*

ALADdin – Dangosfwrdd Tiwtor Personol

Yn 2019/20 byddwn yn parhau i weithredu'r gefnogaeth a roddir i fyfyrwyr drwy'r system tiwtor personol gan ddefnyddio'r Dangosfwrdd Tiwtor Personol (ALADdin – gweler y cyfeiriad ato yn y gweithgareddau cadw myfyrwyr yn yr adran Cydraddoldeb Cyfle uchod). Mae'r dangosfwrdd yn galluogi myfyrwyr a'u tiwtoriaid personol i weld eu data

perfformiad a phresenoldeb, wedi'i feincnodi i ddangos lle y gallent ganolbwyntio arno i wella eu cyfle i gyflawni'r dosbarth gradd y maent yn anelu ato.

Erbyn 2019/20 byddwn yn adolygu'n llawn fanteision y system a hithau wedi bod yn gweithredu ers 3 blynedd (carfan lawn), ac yn gwneud argymhellion gwella yng ngoleuni'r arfer da diweddaraf.

Rydym wedi amlinellu yn yr adran Cydraddoldeb Cyfle sut y gellir defnyddio'r dangosfwrdd i helpu'r myfyrwyr hynny sydd mewn mwy o berygl o dynnu'n ôl neu fethu ond bydd y gwelliannau a wneir i'r system tiwtoriaid personol hefyd yn cyfrannu at hybu llwyddiant myfyrwyr yn ehangach. Mae'r dangosfwrdd yn galluogi tiwtoriaid personol i deilwra'r system tiwtor personol fel bod yr holl fyfyrwyr yn cael cymorth digonol a bod problemau posibl yn cael sylw cyn gynted â phosibl a bod y myfyriwr yn gallu parhau i wneud y gorau o'i astudiaethau.

Ffrwd Profiad Myfyrwyr ac Ymgysylltu â Myfyrwyr yn y Strategaeth Dysgu ac Addysgu

Drwy'r Strategaeth Dysgu ac Addysgu byddwn yn parhau i weithio i wella profiad y myfyriwr a nodi meysydd newydd i'w gwella. Y nod yw targedu arbenigedd staff yn strategol at brosiectau a all arwain at wella profiad y myfyriwr, gan weithio mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr, sy'n cael eu cynrychioli ym mhob ffrwd.

Dy Lais ar Waith – Holiaduron Gwerthuso Modiwlau

Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein rhaglen holiaduron modiwlau (Holiadur Gwerthuso Modiwlau), gan felly sicrhau ymgynghori parhaus â'r corff myfyrwyr sy'n eu galluogi i roi adborth ar faterion dysgu ac addysgu a materion cyfleusterau. Caiff y prosiect ei redeg yn ganolog gan y Tîm Profiad Myfyrwyr a Chyfoethogi, sy'n brysbennu a dadansoddi gwybodaeth ac yn cysylltu ag adrannau i sicrhau bod materion a godir yn cael eu dilyn. Byddwn yn dal i gau'r ddolen adborth i'r myfyriwr trwy ymateb yn uniongyrchol i'r holl faterion a godir, a thrwy ymgyrch gyfathrebu sy'n dangos sut mae adborth myfyrwyr yn cael ei ddefnyddio i wella'r profiad dysgu ac addysgu. Mae'r holiaduron modiwl yn benodol yn helpu myfyrwyr i ddylanwadu ar ddyluniad y cwricwlwm a ffurfio eu haddysg.

Bydd y Cynllun Mynediad a Ffioedd hefyd yn cefnogi porth sylwadau dienw **Dy Lais ar Waith**, sef Rho Wybod Nawr.

Yn ystod 2019/20 byddwn yn gwerthuso llwyddiant yr ymgyrch i safoni a gwella cynrychiolaeth cwrs a gynhaliwyd yn ystod 2017-19. Mae'r Brifysgol yn gweithio'n agosach ag Undeb y Myfyrwyr i ddefnyddio cynrychiolwyr cyrsiau i hyrwyddo pa mor werthfawr yw'r holiaduron gwerthuso modiwlau i lais y myfyrwyr ac i gyfathrebu canlyniadau'r holiadur i'r myfyrwyr.

AberDysgu, ApAber a Thechnolegau Dysgu eraill ar-lein

Trwy'r ap symudol sydd gennym, o'r enw ApAber, byddwn yn parhau i gefnogi ehangu mynediad myfyrwyr at eu data eu hunain. Mae hwn wedi'i ddatblygu mewn ymateb i geisiadau myfyrwyr am fynediad haws at wybodaeth o ddydd i ddydd, mae'r ap yn cefnogi dysgu hunangyfeiriedig trwy roi mynediad ar unwaith i'r myfyriwr i'w ddata presenoldeb a pherfformiad a data cyfartalog tebyg ar gyfer myfyrwyr sy'n ennill 2:1 neu'n uwch yn ogystal â rhoi mynediad symudol i'w data trwy Blackboard AberDysgu. Byddwn yn parhau i esblygu'r ap mewn ymateb i adborth myfyrwyr.

Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn gwaith sy'n cyfoethogi'r amgylchedd addysgu a dysgu, gan gynnwys ein hamgylchedd dysgu rhithiol a thafleuni a deunyddiau cymorth eraill, recordio darlithoedd (gan ddefnyddio cyfleusterau cipio darlithoedd) a rhestrau darllen. Mae'r Grŵp E-ddysgu yn rhoi hyfforddiant a chymorth i staff i sicrhau bod mentrau Dysgu a Gyfoethogir gan Dechnoleg (TEL) yn adlewyrchu ymarfer gorau mewn dylunio ymchwil ac yn cynnig cymorth ym maes ailddylunio cwricwlwm. Byddwn yn parhau i ddatblygu darpariaeth technoleg cipio darlithoedd, gan gynnwys hyfforddiant a chymorth i staff.

Mae dysgu ar-lein yn cynnig agwedd fwy hyblyg at ddysgu i gefnogi cyfraddau cadw a chyflawni. Mae tiwtoriaid yn gallu defnyddio darlithoedd/seminarau corfforol fel cyfleoedd i gyfoethogi a gwella yn hytrach na chyflwyno cynnwys yn unig, a gall myfyrwyr gyrchu sesiynau addysgu a amserlennir ar gyfer adolygu a chwblhau gwaith.

Mae Academi Aber yn y Gwasanaethau Gwybodaeth yn cydweithio gyda Chyfarwyddwyr Profiad y Myfyriwr yn yr athrofeydd academiaidd i sicrhau cysondeb ym mhrofiad y myfyrwyr o Ddysgu a Gyfoethogir gan Dechnoleg yn ogystal ag ystod o welliannau addysgeg eraill. Cynhelir cynhadledd Dysgu a Gyfoethogir gan Dechnoleg bob haf.

Mae Prifysgol Aberystwyth eisoes yn cynnig sawl rhaglen drwy ddulliau Dysgu o Bell ac ar-lein a bydd yn parhau i gefnogi unedau academiaidd y Brifysgol sy'n dymuno cyflwyno eu cynnwys drwy dechnegau eraill ar-lein a dysgu o bell.

Diweddarau'r ddarpariaeth TG ac adnoddau'r llyfrgell

Byddwn yn buddsoddi cyllid yn ein darpariaeth llyfrgell ac adnoddau dysgu, gan gynnwys testunau ac adnoddau electronig ychwanegol, er mwyn i destunau gosod allweddol ar gyfer cyrsiau fod ar gael yn rhwydd, ynghyd â chymorth ar gyfer meddalwedd rhestr darllen a gwasanaethau cysylltiedig a chyfleoedd datblygu sgiliau llythrennedd gwybodaeth i fyfyrwyr. Byddwn yn sicrhau bod ein horiau agor yn ateb anghenion ein myfyrwyr, gan gynnwys buddsoddi mewn agor 24/7 yn ystod y tymor.

Byddwn yn buddsoddi mewn seilwaith a gwasanaethau TG i ddiwallu anghenion ein myfyrwyr a defnydd sy'n newid o dechnoleg mewn Addysg Uwch.

3) Gweithgareddau sy'n cryfhau cyflogadwyedd graddedigion o Gymru**GyrfaoeddAber**

Byddwn yn gweithio i wella sgiliau cyflogadwyedd ein myfyrwyr, gan roi iddynt y cymwyseddau y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt a chynnig cyfleoedd i dyfu a datblygu'r sgiliau hyn er mwyn sicrhau mai canlyniad gweladwy'r profiad AU yw bod yn gystadleuol yn y farchnad graddedig. Byddwn yn sicrhau bod yr holl fyfyrwyr yn gallu manteisio ar ystod eang o gyfleoedd i gyfarfod a rhwydweithio â chyflogwyr, drwy weithgareddau megis:

- Gweithdai a chyflwyniadau dan arweiniad cyflogwyr ar y campws
- Trefnu presenoldeb mewn ffeiriau recriwtio ac uwchraddedig ledled y Deyrnas Unedig
- System eFentora ar gyfer cysylltu â chyn-fyfyrwyr
- Interniaethau a rhaglenni gradd blwyddyn mewn diwydiant (gweler isod)
- Cyfraniadau gan gyflogwyr yn seiliedig ar y cwricwlwm
- Digwyddiadau datblygu sgiliau proffesiynol
- Gwybodaeth a digwyddiadau hyrwyddo sy'n arddangos yr holl gysylltiadau â chyflogwyr, ymchwil a phartneriaeth gyda chyrrff ar draws y Deyrnas Unedig a'r byd

Mae ffeiriau gyrfaoedd y Brifysgol yn seiliedig ar Athrofeydd, a bydd y ffeiriau hyn yn cael eu hehangu gyda ffeiriau â thema iddynt (busnes, y celfyddydau, gwyddoniaeth). Fel y bydd adnoddau'n caniatáu, ein nod yw cynyddu maint ac effaith ffeiriau gyrfaoedd ar y campws. Bydd hyn yn galluogi rhagor o fyfyrwyr i gael mynediad at y rhain, gan olygu na fydd costau teithio yn amharu ar y myfyrwyr. Nod defnyddio themâu ar gyfer y ffeiriau yw sicrhau bod myfyrwyr o bob rhan o'n Hathrofeydd yn gallu mynychu pob ffair wrth ein galluogi i ddarparu dull â ffocws iddo y bydd myfyrwyr yn sylweddoli ei fod yn berthnasol iddyn nhw a'u maes pwnc.

AberYmlaen, GwaithAber a chynlluniau Integredig.

Rydym yn cydnabod gwerth cael profiad gwaith ymarferol. Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein tri opsiwn penodol yn Aberystwyth:

- GwaithAberWorks – darparu profiad gwaith cyflogedig yn ystod y flwyddyn ar gontractau achlysurol a byr ledled y Brifysgol, gydag elfen datblygu sgiliau wedi'i gynnwys yn y broses gwaith achlysurol.
- AberYmlaen – lleoliadau profiad gwaith cyflogedig. Mae'r rhain yn cynnig profiad gwaith cyflogedig ar brosiectau penodol mewn adrannau academiaidd a gwasanaeth, ynghyd â rhaglen hyfforddiant sgiliau cysylltiedig sydd â'r nod o wella parodrwydd at gyflogaeth.
- Cynlluniau Cyflogaeth Integredig – dull hyblyg a gynigir yn ein holl raglenni gradd sef cyfle i fyfyrwyr gael profiad gwaith 12 mis cyn cwblhau eu rhaglen gradd ond sydd yn integredig i'r profiad dysgu.

Bwriad yr holl gynlluniau hyn yw meithrin hyder a helpu cyfranogwyr i adnabod a datblygu'r sgiliau y maent wedi'u hennill yn ystod eu cyfnod yn fyfyrwyr a gallu dangos y rhain i ddarpar gyflogwyr.

Bydd myfyrwyr yn y Brifysgol ar gynlluniau AberYmlaen yn gwneud gwaith heriol. Mae enghreifftiau o waith yn y gorffennol ar y cynlluniau yn cynnwys cynorthwyo â chynllun mentora cyn-fyfyrwyr, dadansoddi setiau data sector gyfan, ysgrifennu datganiadau i'r wasg, cynorthwyo ac arwain ar drefnu digwyddiadau, datblygu gwefan, cynorthwyo prosiectau ymchwil a darparu cymorth rheoli prosiect ar gyfer rhai o brosiectau mawr y Brifysgol.

TrywyddGyrfa

Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn natblygiad ein menter TrywyddGyrfa. Drwy TrywyddGyrfa, mae myfyrwyr yn nodi ar ddechrau eu cwrs beth yw eu barn am eu parodrwydd ar gyfer gyrfa a pha yrfa sydd ar eu meddwl. Mae hyn yn rhoi gwybodaeth werthfawr ynghylch cwrpas a math y wybodaeth yrfa sydd yn ddefnyddiol iddynt a bydd yn helpu tiwtoriaid personol i dargedu cymorth yn briodol. Bydd cysylltu'n rheolaidd â myfyrwyr drwy gydol eu gyrfa prifysgol yn dangos i staff gyrfaedd ac eraill sut mae parodrwydd myfyrwyr am eu gyrfa yn gwella wrth iddynt symud drwy eu gyrfa prifysgol, a bydd yn eu helpu i sylweddoli pa sgiliau y mae angen iddynt eu datblygu a pha gamau y mae angen iddynt eu cymryd er mwyn cyflawni eu huchelgais. Yn ystod 2019/20 dylai llwyddiant y cynllun hwn fod wedi'i ymgorffori ac yn barod am adolygiad. Caiff gwerthusiad ei gynnal i wella'r cipio data a sut y defnyddir y data i hyrwyddo llwyddiant myfyrwyr o ran cyflogadwyedd.

Cymorth i fyfyrwyr ar leoliad

Fel y nodwyd ynghynt yn y cynllun hwn, rydym wedi buddsoddi i ddarparu rhagor o gynlluniau sydd â Blwyddyn mewn Diwydiant neu Flwyddyn Dramor integredig. Rydym hefyd yn gweithio i annog rhagor i fynd ar leoliadau gwaith i wella cyflogadwyedd yn ogystal â gweithio i ddarparu cymorth cynaliadwy i fyfyrwyr ar leoliad. Mae cefnogaeth i fyfyrwyr sydd ar flwyddyn mewn diwydiant, neu mewn addysg dramor, yn cael ei roi yn ganolog a thrwy waith mewn adrannau sydd wedi'i deilwra i arbenigedd pwnc y myfyriwr a gall gynnwys:

- Cymorth i adnabod cyfleoedd (gan gynnwys trwy wefan YourFuture ac AberFutures, y Porth Gwasanaeth Gyrfaedd)
- Modiwlau e-ddysgu ar gyfer paratoi at gyfweiliadau swydd
- Ffug gyfweiliadau
- Ymweliadau tra ar leoliad
- Asesiad ar ôl dychwelyd i helpu myfyrwyr i fynegi manteision eu profiad i gyflogwyr y dyfodol.

4) Gweithredu sy'n hyrwyddo Addysg Uwch Cymru yn fwy effeithiol yn rhyngwladol**Ymwneud â chynlluniau cyfnewid rhyngwladol**

Byddwn yn gweithio drwy'r swyddogion symudedd yn ein swyddfa rhyngwladol i hyrwyddo cynlluniau cyfnewid rhyngwladol i'n myfyrwyr, gan gynnwys Erasmus neu'r cynllun a ddaw yn ei le wrth i'r Deyrnas Unedig baratoi i adael yr UE erbyn 2019/20, er mwyn annog rhagor o fyfyrwyr i fanteisio ar gyfleoedd i weithio neu astudio dramor. Mae'r profiadau hyn yn datblygu sgiliau gwaith gwerthfawr ac yn meithrin hyder.

5) *Gweithredu sy'n gwella sicrhau addysg uwch sy'n gynaliadwy*

Gwella'r ystadau

Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein hystad, gan sicrhau bod ein manau dysgu ac addysgu yn addas i'r diben ac yn cyd-fynd â galwadau newidiol am fannau hyblyg sydd eu hangen ar dechnegau addysgu modern. Byddwn hefyd yn datblygu ein hystad er mwyn i brofiad y myfyriwr gael cefnogaeth manau sy'n annog gweithio mewn grŵp, profiadau hamdden o ansawdd uchel a gweithgareddau chwaraeon ar gyfer iechyd a lles meddwl. Cafwyd llwyddiant nodedig yn hyn o beth wrth adnewyddu Llawr Gwaelod y Llyfrgell yn 2017/18; bydd 2019/20 yn adeiladu ar brofiad y ffordd hon o addasu manau dysgu i rannau eraill y campws.

Ystad sy'n gynaliadwy

Rydym o'r farn fod rheolaeth ein hystad yn ffactor bwysig yn iechyd a lles ein myfyrwr ac wrth gefnogi'r agenda Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fydeang. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwr, yn ogystal â mentrau sy'n defnyddio ein doniau ein hunain i hyrwyddo bioamrywiaeth, lleihau gwastraff ac annog effeithlonrwydd ynni.

6) *Gweithgareddau i godi ymwybyddiaeth o Addysg Uwch ymhlith darpar ddysgwyr*

Ysgoloriaethau Mynediad

Yn ogystal â'r bwrsariaethau hynny a ddatblygir sydd ag ehangu mynediad i Brifysgol yn ffocws iddynt, rydym hefyd yn cynnig ysgoloriaethau a gwobrau i annog rhagoriaeth a dyhead. Nid oes prawf modd/incwm ar gyfer y rhain ond yn hytrach maent yn geisiadau cystadleuol ac yn seiliedig ar arholiad.

7) *Gweithgareddau eraill i Hyrwyddo Addysg Uwch*

Mynediad am ddim i'r Ganolfan Chwaraeon i fyfyrwr sy'n preswyllo ar y campws

Defnyddir cronfeydd y Cynllun Mynediad a Ffioedd i barhau i gynnig aelodaeth am ddim i'r Ganolfan Chwaraeon ar y campws i fyfyrwr preswyl. Ers cyflwyno'r arloesedd hwn yn 2017/18, mae'r defnydd ar y Ganolfan Chwaraeon wedi dyblu; cynhaliwyd sesiynau penodol i annog pob myfyriwr, beth bynnag fo'u cefndir blaenorol o ran gweithgarwch corfforol, i gymryd rhan mewn Chwaraeon.

Cefnogi Undeb y Myfyrwr


Byddwn yn parhau i gefnogi gwaith ein Hundeb Myfyrwr i wella profiad myfyrwr, gan gynnwys eu gwaith yn annog myfyrwr i ymgysylltu â gweithgareddau allgyrsiol trwy gynnal gweithgareddau chwaraeon a chymdeithasau eraill.

Monitro a Gwerthuso Effeithiolrwydd ein Cynlluniau Ffioedd a Mynediad

Caiff cynnydd ac effaith gweithgareddau ein Cynlluniau Mynediad a Ffioedd eu hasesu yn ofalus i sicrhau bod y buddsoddiadau a wneir gennym mewn mesurau i ehangu mynediad, cynyddu cyfleoedd a darparu profiad rhagorol i fyfyrwyr yn effeithiol, ac yn sail i benderfyniadau wrth ddatblygu cynlluniau Mynediad a Ffioedd yn y dyfodol.

Byddwn yn monitro llwyddiant y cynllun ffioedd hwn trwy gyfarfodydd rheolaidd Grŵp Monitro'r Cynllun Ffioedd. Mae cynrychiolaeth o Undeb y Myfyrwyr ar y Grŵp hwn er mwyn sicrhau bod ein corff myfyrwyr yn cael gwybodaeth am wariant y cynllun ffioedd myfyrwyr a chynnydd ar weithgareddau a nodir yn y cynllun hwn. Mae'r Grŵp yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar wariant yn erbyn cyllidebau disgwylidig ac ar weithgareddau a chynnydd yn erbyn targedau. Bydd adroddiadau ar lwyddiant y Cynllun Ffioedd hefyd yn cael eu hystyried gan Gyngor y Brifysgol fel rhan o'r adolygiad blynyddol ar weithgareddau'r Cynllun Ffioedd.

Yn ogystal, byddwn yn parhau i ddefnyddio ystod o fesurau i werthuso effeithiolrwydd cynlluniau ffioedd a mynediad flwyddyn ar ôl blwyddyn, gan edrych ar batrymau tueddiadau ar gyfer recriwtio o gefndiroedd â chyfranogiad isel, llwyddiant myfyrwyr a bodlonrwydd myfyrwyr trwy arolygon allanol a mewnol. Byddwn hefyd yn defnyddio ymatebion i'n gweithgareddau ymgysylltu â myfyrwyr (gan gynnwys Rho Wybod Nawr a Holiaduron Gwerthuso Modiwlau) fel rhan o'n prosesau gwerthuso.

| Cyflwyno Cynllun Mynediad a Ffioedd 2019/20 i CCAUC¹ | |
|--|--|
| Dyddiad ei gymeradwyo gan y corff llywodraethu: | 06 Gorffennaf 2018 |
| Llofnod awdurdodedig y corff llywodraethu: |  |
| Dyddiad: | 18 ^{fed} Gorffennaf 2018 |

¹ Wrth gyhoeddi cynlluniau mynediad a ffioedd ar wefannau sefydliadau, dylid ond cynnwys dyddiad y fersiwn derfynol a gyflwynwyd gan y corff llywodraethu ac a gymeradwywyd gan CCAUC.